

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

**Rhifyn 317 - 60c
Hydref 2013**

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Pencampwyr
chwaraeon o
bob math.**



Tudalen 22

**Cadwyn
Cyfrinachau
yr Ifanc arall.**



Tudalen 13

**Bugail Ifanc
y flwyddyn
Ewrop.**



Tudalen 7

Ail Greu Hanes



Rhai o drigolion ardal Llanbed sy'n cymryd rhan yn rhaglen 'Y Plas' ar S4C gyda'r ddau brif gymeriad. Rhaglen a recordiwyd yn Llanerchaeron sy'n adlewyrchu'r bywyd a fu yno.

A'i gofnodi...



Disgyblion blwyddyn 3 a 4 Ysgol y Dderi, Llangybi yn ymweld â Thŵr Y Dderi tra'n dilyn y thema 'Gweledigaethau Newydd' fel rhan o'u gwaith ysgol. Gyda chymorth Mrs Ann, llwyddasant i gyfuno hanes lleol a ffotograffiaeth digidol.

Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

11eg o Hydref 2013

**Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30**

MYNEDIAD £2

Neuadd Felin-fach

**Arweinydd y noson
Geraint Lloyd**

**Beirniad
Gareth Lloyd
a Cerys Lloyd**

O'r Llwyfan
Dweud stori ddoniol
Darllen darn heb ei atalnodi.
Datganiad cerddorol gan ddefnyddio eitem/eitemau o'r cartref.
Gyda chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant.
Sgets neu ddeialog - stori fwya'r fro.
Cor Chwibanu (ton ar y nos!)

Gwaith Cartref
Slogan— gwerthu eich papur bro
Dysgwyr - erthygl i'r papur bro am ddysgu cymraeg.
Plant oed gynradd - paentio hoff gymeriad o lyfr.
Pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed - blog yn mynegi'ch barn ar bwnc cyfoes.
Brawddeg - CYMUNED.
Gorffen Limerig - Mi welais drwy gornel fy llygad.
Creu poster i ddenu hysbysebion i'ch papur bro.
Dyddiad cau 2ail Hydref

Cefnogwch eich papur bro!

Noson dda o adloniant i bawb.
Dewch draw i fwynhau, i gystadlu ac i gefnogi'ch papur bro.

Y TINCER
Y Barcud
Y Gartheg
Papur Pawb
Yr Angor
Llais Aeron
CLONC
Y GOLEN
Y Gambo

 www.facebook.com/clonc  @Cloncyn

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Rhian Thomas.

Medi 14

Ennill eto!! :)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Postiodd **Papur Bro Clonc**

Medi 14

Hwyl dda yn Ffair Ram heddiw. Mwy o luniau ar www.ffairram.btck.co.uk

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd Cloncyn **Celfyddydau Golwg** @celfgolwg.

Medi 7

Y lle'n orlawn ar gyfer Darlith Goffa Islwyn Ffowc Elis. Gerwyn Williams @GwylGolwg

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd Cloncyn **Dafydd Lewis** @DafyddWDLewis

Medi 7

@Cloncyn yn rhan o drafodaeth ar ddyfodol papurau bro @GwylGolwg

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Heulwen Williams.

Medi 7

'Drychwch pwy oedd yn Llanybydder heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Anwen Butten.

Medi 7

Pencampwyr Bowls - Anwen Butten, Melanie Thomas, Alis Butten ac Anita Williams.




Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



**WEDI CAEL CANIATAD CYNLLUNIO
AC EISIAU ADEILADWR?**

PEIDIWCH AG EDRYCH DIM PELLACH...

**RYDYN NI'N DELIO Â PHOB AGWEDD O'R GWAITH;
ADEILADU TAI NEWYDD, ADNEWYDDU, ESTYNIADAU AC ADDASIADAU.
O'R CYNLLUNIO I'R CWBLHAU.**

• GWAITH COED • TOI • FFENESTRI A DRYSAU • GRISIAU •
• CEGINNAU • YSTAFELLOEDD 'MOLCHI • LLORIAU PREN •
• RHEOLI PROSIECT • DULLIAU EGGI AMGEN A'U GOSOD •

www.cartrefircwm.co.uk   

Cartrefir Cwm, 1 Tynyffordd, Rhydybont, Llanybydder, Carmarthenshire, SA40 9QU
Ffôn: 01570 480 214 • Symudol: 07814 027 849 • E Bost: info@cartrefircwm.co.uk

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Hydref Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Tachwedd Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gweplyfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncyn
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Dysgu trwy esiamp!

Ydy, mae Alys yr wyres yn gymorth mawr i lanw colofn Siprys!

Mae newydd ddechrau'r ysgol a chredwch chi ddim beth oedd hi'n wneud y diwrnod cyntaf – dysgu'r athrawes i gyfrif i ddeg yn Gymraeg (ochr draw i Glawdd Offa).

Wedi dod adre y diwrnod hwnnw roedd hi'n chwarae gyda chi bach metal ar bedair olwyn, beth oedd yn ei llaw hi ond cwydplastig rhag ofn y buasai'r creadur bach tun yn gwneud ach y fi ar y lawnt. Nid oedd y famgu arall yn barchus iawn ganddi am ei bod yn rhoi rhyw bethau gwyn yn ei cheg a bod 'steam' yn dod allan o'i thrwyn. 'Tân y Ddraig' siŵr o fod.

Mae'r ffaith fod plant yn dysgu trwy esiamp yn bwysig i ni gofio. Os ydym ni yn taflu sbwriel fe fyddant hwythau yn gwneud yr un peth. Mae hyn yn fy atgoffa i nad oeddwn i bob amser yn esiamp da lle roedd rhegi yn y cwestiwn. Dim byd yn ofnadwy o ddrwg, ond rwy'n cofio mynd i'r ysgol ar brynhawn Sul, a chrwt o Sais o Sir Benfro yn fy nghroesawu, "Men yffarn ni Mr Davies it's good to see you". Fe ddaeth a gwên i'm wyneb. Ydy gwaetha'r modd, mae wedi dod yn amser byw ar atgofion.

Ail adrodd

Ydw rwy'n clywed hyn yn aml - "Rwy'ti wedi dweud hwnna o'r blaen". Dim fi yw'r cyntaf i wneud hyn. Un Gweinidog yn codi testun ac yn cyfaddef i'r gynulleidfa nad dyma'r tro cyntaf oedd e wedi dewis y testun. Un o'r aelodau yn rhoi pwt i'w ffrind ac yn sibwrdd 'agosach i

seithfed tro'.

Fe aethom ni trwy gyfnod o gael testun newydd bob Sul ond yn anffodus yr un bregeth. Dyna fe, rhaid cofio fel yr oedd y 'Cyfarwydd' neu'r 'storïwr' yng nghefn gwlad yn diddori teuluoedd lawer trwy adrodd yr un hanesion dro ar ôl tro. Roedd fy Nhad yn sôn am 'Dic Celwydd Golau' – cymeriad lleol oedd yn gweithio yng nglofeydd y De. Roedd bob amser a storïau di ben draw, neb yn eu credu ond fe'i hunan.

Y Plas.

Yn naturiol mae'r rhaglen hon o ddiddordeb mawr i ni yn yr ardal yma. Cymeriadau lleol yn cymryd rhan a phob un ohonom yn gyfarwydd iawn ag ymweld â Llannerch Aeron. Mae'n dda o beth fod y lle o dan oruchwyliaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu fe fuasai'n go druenus ar y lle.

Mae'n amser rhoi'r ffidl yn y to am fis arall. Cofiwch os oes gennych hanesyn sy'n taro i'r golofn bydd 'Cloncyn' yn falch o'i dderbyn. Felly hwyl fawr am y tro.

CLONCYN.

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr gyda'r
gwaith o gynhyrchu'r
papur hwn, croeso i
chi gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.

Gwobrau Dewi Sant

Gwahodd enwebiadau ar gyfer Gwobrau Dewi Sant – pwy fyddwch chi'n eu henwebu?

Mae'r Prif Weinidog, Carwyn Jones wedi galw ar bobl o bob cwr o Gymru i enwebu rhywun sydd, yn eu barn nhw, yn haeddu cydnabyddiaeth am eu llwyddiannau eithriadol, wrth i'r broses enwebu ar gyfer y system wobrau newydd agor heddiw.

Mae Gwobrau Dewi Sant yn gynllun unigryw i Gymru, ac yn cydnabod llwyddiannau pob math o bobl, beth bynnag eu cefndir neu broffesiwn.

Bydd y Gwobrau blynyddol yn anrhydeddu pobl sy'n gwneud pethau eithriadol, gan ysbrydoli eraill a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd pobl Cymru.

Gellir enwebu unrhyw un dan wyth categori, sef:

Dewrder
Dinasyddiaeth
Diwylliant
Menter
Arloesedd a Thechnoleg
Chwaraeon
Rhyngwladol
Person ifanc

Hefyd mae nawfed gwobr, sef Gwobr Arbennig Prif Weinidog Cymru. Nid oes modd enwebu pobl ar gyfer y wobr hon, a'r Prif Weinidog ei hun fydd yn dewis yr enillydd.

Gellir enwebu drwy lenwi ffurflen ar-lein neu lawrlwytho templed o www.cymru.gov.uk/gwobraudewisant. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw Tachwedd 5ed 2013.

Cyhoeddir y rhestr fer ar Ionawr 9fed 2014. Bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn seremoni Gwobrau Dewi Sant ar Mawrth 13eg 2014 yng Nghaerdydd.

Non Jones

Tîm Cyfathrebu Trawsbortffolio
a Gwerthuso, Adran Cyfathrebu
Llywodraeth Cymru
Ffôn: 029 2082 3393
ebost: non.jones@wales.gsi.gov.uk



Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru



HYDREF

- 3 - Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7.00y.h. Pregethir gan Delyth Morgans Phillips, Llambled. Croeso cynnes i bawb.
- 4 - Noson Caws a Gwin o 6y.h. tan 9y.h. yn Bryntawel, Drefach (trwy ganiatâd Peter, Mary a Julian Chadwick) Elw tuag at Nyrsys Macmillan.
- 4 - Gwenan Gibbard a Meinir Gwilym yn Festri Brondeifi, 7y.h. Trefnir gan Blaid Cymru Llambled a'r cylch. Tocynnau £10.
- 5 - Sioe Ffasiwn yr Urdd gan Duet a Lan Llofft yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant am 4.30y.p.
- 6 - Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Betws am 10.45y.b.
- 6 - Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Sant Cybi, Llanybi am 6.00y.h.
- 6 - Cwrdd Diolchgarwch Alltyblaca am 7.00y.h. Pregethir gan Parchedig J. Eric Jones, Aberdâr.
- 6 - Cegin y Bobl yn Neuadd Bentref Llanfair Clydogau am 1y.p.
- 7 - Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7.00y.h. Pregethir gan Miss Beth Davies, Gorrig.
- 7 - Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Santes Gwenog am 7.00y.h. Pregethir gan Bonnie Timothy, Llanfihangel ar Arth.
- 8 - Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan. Gwasanaethir gan Mrs Delyth Morgans Phillips, Llambled. Croeso cynnes i bawb.
- 9 - Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni, Llanllwni am 7.00y.h. Disgwylir y Parchedig Wynford Thomas, Castell Newydd Emlyn i wasanaethu.
- 9 - Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos ynghyd â CFf Cwmann am 7 o'r gloch. Pregethwr gwadd: Mrs Hazel Charles Evans, Llandybie.
- 10 - Cwrdd Diolchgarwch Caersalem Parcyrrhos am 7y.h. Pregethir gan y Parchedig Huw George, Llandisilio.
- 10 - Cwrdd Diolchgarwch Capel Mair, Llanfair Clydogau am 7y.h.
- 11 - Eisteddfod Ddwl Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach am 7.30y.h.
- 11 - Dai Jones, Llanilar, Gwawr a Dafydd Edwards, Elin Davies, Sam Jones a Côr Meibion Caron yn Neuadd y Ddraig Goch Drefach Felindre 7.30 y.h. Tocyn £10. Elw at Apêl Penryfarthing, yn cefnogi Ymchwil Cancr Cymru.
- 11 - Noson Caws a Gwin yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers gydag elw y noson yn mynd tuag at Eisteddfod 2014 i ardal Ffaldybrenin a Ffarmers.
- 12 - Urdd y Benywod Capel-y-Bryn yn cynnal Moes a Phryn yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd am 3.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 12 - Marchnad y Bobl yn Neuadd Fictoria 10y.b. - 1y.p.
- 13 - Ras Hwyl Ysgol Llanwenog am 11.00y.b.
- 15 - Sefydliad Prydeinig y Galon, Cangen Llanybydder a Llambled yn cynnal Noson Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8 y.h.
- 15 - Cwrdd Diolchgarwch Brynteg, 7y.h. Pregethir gan y Parchedig Goronwy Evans.
- 17 - Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h. Pregethwr gwadd yw'r Parchedig Richard Lewis, Bow Street.
- 17 - Cyfarfod i drafod Trenau i Lanbed unwaith eto yn Neuadd Fictoria am 7y.h. Siaradwyr: David Morgan, Mike Parker a Rob Phillips.
- 19 - Cyngerdd Clwb Castanetau yn Neuadd Fictoria am 7y.h.
- 20 - Cwrdd Diolchgarwch yr Ifanc yn Noddfa am 5.00y.p.
- 21 - Cyfarfod Cymdeithas Bethel Parcyrrhos i ddechrau am 7.30 yr hwyr. Gŵr gwadd: Mr Lyn Richards, Maesglas, Caio.
- 22 - Aelwyd yr Urdd Llanbed 7.00-8.15y.h.
- 26 - Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint; am rhagor o fanylion Mair Williams ar 01558 650292.
- 26 - Marchnad y Bobl yn Neuadd Fictoria 10y.b. - 1y.p.
- 31 - Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

TACHWEDD

- 1 - Cinio Cymdeithas Amaethyddol Llanbed yn y coleg. Adloniant gan Clive Edwards. Tocynnau gan yr ysgrifennydd Iwan Williams 422370.
- 2 - Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 2 - Diwrnod Modelau Rheilffyrdd a sgwrs gyda Emyr Phillips ar y Cardi Bach yn Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre rhwng 10am a 3pm.
- 9 - Gŵyl Cerdd Dant Genedlaethol Cymru ym Mhafiliwn Bont.
- 17 - Gymanfa Ganu Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yn Shiloh dan arweiniad Twynog Davies am 7.00y.h. Cyfeilydd Bryan Jones.
- 18 - Cymdeithas Bethel Parcyrrhos - cwis yr ofalaeth yn Shiloh Llansawel am 7.30 yr hwyr. Cwis feistr: Mr Aled Evans, Cwmann.
- 19 - Aelwyd yr Urdd Llanbed 7.00-8.15y.h.
- 22 - Cyngerdd yn Neuadd Bro Fana gan barti bechgyn Ar Wasgar i godi arian tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yn Sir Gâr yn 2014.
- 29 - Degfed Ffair Grefftau ac Arwerthiant Blynnyddol yn Neuadd y Conoriad Pumsaint 2.00 – 7.00y.h. Elw at Gancr y Fron Cymru.
- 30 - Degfed Ffair Grefftau ac Arwerthiant Blynnyddol yn Neuadd y Conoriad Pumsaint 10.00y.b – 4.00y.p. Elw at Gancr y Fron Cymru.
- 30 - Arwerthiant Blynnyddol Seion, Cwrtnewydd.

Bedyddwyr Gogledd Teifi

Cinio Bedyddwyr Gogledd Teifi

Roedd hi'n olygfa braf gweld dros hanner cant o Fedyddwyr sy'n perthyn i gylch o eglwysi dan ofal y Parchg Jill Tomos yn dod at ei gilydd i fwynhau noson gymdeithasol yn y Grannell, Llanwnnen, ar nos Fawrth 10 Medi.



Wyn Gruffydd oedd y siaradwr gwadd, a braf oedd ei groesawu ef a'i briod, Gwyneth. Mae'r ddau yn gymeriadau cyfarwydd i nifer yn y Cylch; bu tad Wyn, y diweddar Barchg W. J. Gruffydd, yn weinidog ar eglwys Noddfa, a magwyd Gwyneth yn eglwys Salem Caio. Yn ei anerchiad difyr (a hynny heb damed o nodiadau), aeth Wyn â ni ar daith i sawl gwlad wrth iddo adrodd straeon am ei ymweliadau â phedwar ban y byd yn sgil ei waith fel gohebydd rygbi, a chwrdd â chymeriadau lliwgar. Yn sicr, mae Wyn wedi etifeddu dawn dweud ei dad, ac roeddem fel cynulleidfia wedi cael ein cyfareddu gan ei straeon.

Dyma'r pedwerydd tro i'r Cylch o eglwysi gynnal noson o'r fath, er bod y Cylch mewn bodolaeth ers deng mlynedd. Roedd hi'n ddiwedd cyfnod fodd bynnag, gydag ymddeoliad Mrs Nesta Harries yn Ysgrifennydd y Cylch. Diolchwyr yn gynnes iddi am ei holl waith a'i chynhaliadau yn ystod y deng mlynedd gan y Gweinidog, a chyflwynwyd rhodd i Nesta yn arwydd o werthfawrogiad y Cylch ohoni. Croesawyd hefyd Ysgrifennydd newydd y Cylch, Delyth Phillips.

Llywyddwyd y noson yn raenus a di-ffws gan Gadeirydd y Cylch, Janet Evans. Gofynnwyd bendith ar y bwyd gan Brenda Jones, Cwrtnewydd. Talwyd y diolchiadau gan Dai Gwarffynnon – diolchodd i Wyn am ei anerchiad, i Nesta Harries am y trefniadau, i Janet am lywio'r noson, ac i'r Grannell am bryd bwyd gwerth chweil.


Braf oedd dod at ein gilydd fel cylch o eglwysi er mwyn profi hwyl a chwmniaeth. Edrychwn ymlaen yn barod at ginio 2014!

Bedydd Brynhafod ac Aberduar

Daeth aelodau Cylch Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi ynghyd i Aberduar ar gyfer oedfa fedydd ar fore Sul y 1af o Fedi. Ieuenctid Brynhafod, Gorsgoch, ac Aberduar, Llanybydder oedd wedi gofyn am gael eu bedyddio, ac roedd hi'n ddiwrnod i werthfawrogi ffydd y Cristnogion ifainc hyn a'u parodrwydd i ysgwyddo'r iau yn eu bro, a hefyd ymdrechion y rhai fu'n gweithio yn yr eglwysi ar draws y degawdau, yn weinidogion ac yn aelodau, ac yn athrawon Ysgol Sul. Ac ar ôl yr oedfa roedd – wel, parti festri oedd e siŵr o fod, a neb angen cinio ar ôl mynd adre! Diolchwn i Dduw am ei ddaioni i ni, ac am ddyddiau llawenydd.



Yn y llun gwelwch Enfys, Gethin a Gwawr Hatcher, Rhian a Carys Wilson, Cari Thomas, Lowri a Hedydd Wilson, a Richard a Rhian Milcoy ynghyd â'r gweinidog, Jill Tomos.



Ruby Rose

**Bwtic anrhegion
a chartref hynafol.**

2 Market Place, Llanbed
01570 422359
rubyroselampeter@hotmail.co.uk

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

**Darparu gatau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed

Teifi

Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies

01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Ar Nos Iau Medi 12fed aeth aelodau o'r sefydliad am daith i Bontarfynach ac ymweld â'r Caban a mwynhau gweld Sarah Bunton sef enillydd o fri dros y byd yn arddangos gwneud siocledi a fudge moethus.

Pleser oedd cael y cyfle i rannu ei storïau am sut iddi ddechrau y fenter a'r llwyddiant a ddaeth i'w rhan. Wedi'r arddangosfa cafwyd swper blasus a chyfle i fwynhau'r siocledi gyda'r coffi.

Diolchodd y llywydd Mrs Avril Jones i Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach am drefnu noson mor addysgiadol.



Aelodau Sefydliad y Merched Llanwnnen ar eu hymweliad â'r Caban, Pontarfynach

Pwyllgor Lles Llanwnnen – Gwibdaith Blynnyddol

Ar Ddydd Mercher Medi 18fed aeth trigolion y pentref am wibdaith ar fws G&M Llambod o amgylch rhan o'r gogledd. Yn gyntaf i Farchnad Machynlleth, a threulio ryw ddwy awr yno a chael ambell i fargen a te deg cyn mynd ymlaen am Ddolgellau, sylwi ar yr hen adeiladau yn cynnwys cerrig mawrion prydferth iawn, cael cinio yn y dref hon cyn mynd ymlaen i Aberdyfi, a threulio ychydig amser ar y traeth hyfryd ond roedd braidd yn oer erbyn hyn, felly aethpwyd i Aberystwyth, lle cawsom swper blasus mewn ychydig amser yn moethusrwydd Gwesty Llety Parc.

Roedd Mr Dai Williams, Dolaugwyrdion wedi rhoi gwobr o £5 i'r sawl a fyddai yn dyfalu'r milltiroedd / cilometrau a deithiwyd yn ystod y dydd. Ac enillwyd y wobwr gan Mr Dilwyn Davies, Alwyn - llongyfarchiadau (205 km).

Cafwyd raffl ar y bws a'r gwobrau yn rhoddedig gan Mrs Ann Hughes, Cwmhendryd; Mr Gwilym Davies, Llys-Aeron; Teulu Lowtre; Mrs Catrin Thomas, Castell Du; a Mr John a Mrs Avril Jones, Troed Y Bryn.

Yr enillwyr oedd Mr Gwilym Davies, Mrs Avril Jones, Mrs Doris Jones, Cwmgwyn; Mrs Alice Davies a Mr Dilwyn Davies, Alwyn.

Diolchodd y Cadeirydd Mr Haydn Richards, Lowtre i Mrs Ann Hughes a Mrs Gwen Davies am drefnu'r wibdaith, ac yna diolchodd Mrs Gwen Davies i Mr Haydn Richards am ei gyfraniad yntau at lwyddiant y dydd ac yn ystod y flwyddyn. Cyrhaeddwyd yn nôl yn Llanwnnen am hanner awr wedi wyth o'r gloch yn ddiogel a blinedig ar ôl diwrnod hyfryd.

Diolch

Hoffai Gwen, Llys-Aeron ddiolch o galon am y dymuniadau da dderbynais wrth gymdogion, perthnasau, ffrindiau a holl aelodau mudiadau rwyf yn gysylltiedig â nhw, am y lluo cardiau, galwadau



Disgyblion Ysgol Llanwnnen gyda baner Masnach Deg fel cydnabyddiaeth o'u gwaith caled i sicrhau bod yr ysgol yn un sydd yn cymeradwyo Masnach Deg.

ffôn, anrhegion, blodau ac ati, ac i bawb ddaeth i ymweld â mi wedi imi gael llawdriniaeth yn Ysbyty, Llwynhelyg, Hwlfordd yn ddiweddar.

Dyweddïo

Dymuniadau gorau i Bethan Roberts, Bro Llan ar ei dyweddïad â Sam Vernon yn ddiweddar. Pob lwc i chi i'r dyfodol.

Ysgol Llanwnnen

Croeso mawr i Mari Evans, Cerys Evans a Lily Mae Evans sydd wedi cychwyn yn y dosbarth derbyn ers mis Medi ac i Steffan Evans sydd wedi cychwyn ym mlwyddyn 4. Mae'r pedwar wedi ymgartrefu yn dda i fywyd yr ysgol ac yn mwynhau eu hunain yn fawr.

Bu nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn brysur dros yr haf yn cystadlu mewn amryw o sioeau gyda gwaith celf, wrth ddangos anifeiliaid o bob math ac wrth rasio beiciau modur. Llongyfarchiadau i bawb a fuodd yn llwyddiannus a braf oedd gweld eich lluniau yn y wasg.

Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr Ysgol a Mrs Llwyd ar eu llwyddiant wrth ennill y faner Masnach Deg fel cydnabyddiaeth o'u gwaith caled i sicrhau bod yr ysgol yn un sydd yn cymeradwyo Masnach Deg. Da iawn chi blant.

Ar ddydd Gwener, Medi 27ain aeth yr ysgol i gyd am dro i lawr i Neuadd yr Eglwys er mwyn cefnogi Bore Coffi Macmillan. Roedd Sali, gynt o'r siop, wedi trefnu'r digwyddiad a braf oedd cael cefnogi. Roedd y neuadd yn orlawn ac roedd y plant wedi mwynhau eu sgwash a'u cacennau.

Llongyfarchiadau i dîm 5 bob ochr sef, Carwyn Rosser, Dylan Thomas, Guto Ebbsworth, Meirion Lloyd, Steffan Griffiths, Catrin Jones a Lucy Cooper ar eu llwyddiant yn ennill cystadleuaeth cylch yr Urdd. Enillodd y tîm dri o'u gemau a chael un gêm gyfartal, fe ânt ymlaen yn awr i gynrychioli'r cylch yn y rownd nesaf. Da iawn chi.

Diolch o galon i Mrs Nerys Vobe sydd wedi bod yn gweithio'n rhan amser gyda ni am ei chyfraniad gwerthfawr iawn i'r ysgol. Gofalwch eich bod yn cadw mewn cysylltiad ac yn galw mewn i'n gweld.

Croeso cynnes i Mrs Sioned Mills a fydd yn rhannu swydd gyda Mrs Llwyd yn y Cyfnod Sylfaen. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at eich croesawu i'r ysgol. Pob hwyl mawr i Mrs Llwyd wrth iddi ddechrau ar ei chyfnod o weithio rhan amser.

Colofn Cefn Gwlad

gan Helen Howells, Uwch-swyddog Cefn Gwlad,
Cyfoeth Naturiol Cymru



Y Draenog

Yn ystod yr haf, enwyd y draenog fel Rhywogaeth Cenedlaethol Prydain. Newyddion da o ystyried fod niferoedd draenogod wedi cwmpo'n sylweddol yn ystod y blynedd diwethaf. Yn ystod y 1950au roedd hyd at 30 miliwn o ddraenogod ym Mhrydain. Erbyn 1995, cwmpodd y boblogaeth i 1.5 miliwn. Ers hynny, amcangyfrifwyd fod y boblogaeth yn cwmpo rhwng 2% a 10% y flwyddyn. Er mwyn i'r draenog barhau i fod yn Rhywogaeth Cenedlaethol Prydain, mae angen i rywbeth newid.

Mae'r hydref yn amser pwysig o'r flwyddyn i'r draenog. Mae angen iddo fwyta cymaint ag y medrith er mwyn adeiladu cronfeydd egni dros y gaeaf, yn ogystal ag adeiladu nyth i'w hunan er mwyn cysgodi yn ystod ei gaeafgws. Ond mae'r draenog wedi addasu dros fil o flynyddoedd i wneud yn fwy na 'cysgu' dros y gaeaf. Gan bod bwyd y draenog yn prinhaus, mae ganddo addasiadau arbennig sy'n arafu ei metaboleg nes ei fod bron â stopio yn gyfan gwbl. Yn ystod y gaeafgws, mae'n ddisymud, mae ei gorff yn oeri ac mae gweithgareddau ffisiologol y corff yn arafu. Mae cyfradd curiad y calon yn arafu yn sylweddol o 190 y funud i 20 y funud. Mae tymheredd y corff yn cwmpo o 35 gradd selsiws i 10 gradd selsiws neu'n is, ac mae'r anadlu bron yn stopio. O ystyried nodweddion y gaeafgws, mae'n amser go bryderus i'r draenog gan ei fod dan fygythiad o ymosodiad pan yn cysgu ac y mae hefyd yn sensitif i newidiadau'r tywydd. Dyma pan mae'n rhaid iddo adeiladu nyth ddigonol.

Yn ystod mis hydref, mae'r draenog yn mynd ati i gasglu deunyddiau i adeiladu nyth ar gyfer y gaeaf, neu 'hibernacula'. Mae'n casglu dail, porfa, gwellt, rhedyn ac yn y blaen i adeiladu 'hibernacula' a all fod hyd at 20 modfedd mewn dyfnder. Mae'r rhain yn cael eu lleoli o dan cloddiau, coed wedi cwmpo, gwreiddiau coed neu o fewn twmpathau brysgwydd. O ystyried y deunyddiau adeiladu, mae'r 'hibernacula' yn syndod o glyd a chynnes.

Tra bod y draenog yn paratoi at y gaeaf, nid yw'n hollol sicr i gadwraethwyr pam bod eu niferoedd yn cwmpo. Mae rhai yn honni fod amaethyddiaeth dwys, trwy gwneud caeau yn fwy a cholli cloddiau, wedi chwarae rôl. Mae defnyddio plaladdwyr hefyd yn lleihau bwyd y draenog, sy'n bwydo ar falwod a chwilod. Ond mae gan garddwyr ar gymaint o fai â ffermwyr yn y mater yma. Mewn trefi a phentrefi, mae'r gerddi nawr yn llai ac yn fwy cymen gyda ffens sy'n stopio'r draenog rhag symud rhyngddynt. Mae adeiladu hewlydd newydd yn gallu gwahanu poblogaethau lleol sy'n achosi problemau yn ymwneud ag amrywiaeth geneteg. Yn ogystal, bob blwyddyn, mae degau o filoedd o ddraenogod yn cael eu lladd ar ein ffyrdd.

Rheswm arall yw bod y mochyn daear yn elyn naturiol i'r draenog a bod draenogod yn osgoi ardaloedd lle maent yn byw mewn niferoedd mawr. Pan bod cynefin yn cynnig digon o gysgod a bwyd i'r ddau anifail, mae'r draenog a'r mochyn daear yn gallu byw naill ochr a'i gilydd. Ond pan mae'r cynefin yn fach, heb ddigon o fwyd i'r ddau anifail, mae'r draenog yn colli mas. A thra bod dyn yn cymryd mwy na'i siâr o gynefin Cymru, mae cynefin naturiol y ddau anifail yn lleihau.

Sut alla' i helpu'r draenog?

- Ceisiwch adael lloches fechan yn eich gerddi i'r draenog, gan adael cornel 'llai taclus' lle y gall dail a phrysgwydd gasglu er mwyn iddo gael lle i nythu dros y gaeaf.

- Lleihau ar ddefnydd plaladdwyr yn yr ardd, yn enwedig 'slug pellets'. Mae'r 'pellets' yn heintus i'r draenog ac maent yn gallu cael eu gwenwyno gan y malwod sydd wedi'u heffeithio. Mae trapiau cwrw yn ffordd effeithiol o gael gwared y mwydod ond os wnewch chi annog draenog i ddod i fyw yn eich ardd, mi wneith e'r gwaith caled o'u bwyta!

- Os oes gennych bwl dŵr yn yr ardd, ceisiwch rhoi 'ramp' fechan iddo allu dod allan, neu rhowch bach o 'netting' ar hyd un o'r ochrau iddo ddringo allan.

- Gridiau gwartheg - os oes gennych grid gwartheg, mae draenogod ynghyd â mamaliaid ac adar bach eraill yn gallu mynd yn sownd. Ffordd dda o osgoi hyn yw creu 'ramp' ar un ochr fel bod anifeiliaid bychan yn gallu dod allan yn ddiogel.

- Gadewch powlen o ddŵr ffres allan i'r draenog - ond peidiwch byth â bwydo llaeth buwch iddo!

Clwb Hoci Llanybydder



Dyma enillwyr gwobrau Clwb Hoci Llanybydder am y tymor diwethaf. O'r chwith i'r dde, Claire Webb capten eleni, Gemma Hope chwaraewraig y flwyddyn, Laura Sherie Jones sgorwraig uchaf, Caryl Rees is-gapten eleni. Yn absennol o'r llun mae Lesley Benstead chwaraewraig mwyaf addawol.

Colofn y C.Ff.I.



C.Ff.I Ceredigion

Blwyddyn newydd, aelodau newydd a nifer o gystadlaethau amrywiol am 2013-2014.

Cychwynnodd y flwyddyn gyda chyfarfodydd misol yn Felinfach. Einir Ryder yw cadeiryddes newydd C.Ff.I Ceredigion. Cafodd Arwel Jenkins ei ethol yn gadeirydd Pwyllgor Materion Gwledig, Etholwyd Mererid Davies yn gadeiryddes Pwyllgor Gweithgareddau a Carwyn Davies bydd cadeirydd y Fforwm Ieuentid.

Gareth Evans, Bant ar Cart, Caerwedros a gafodd ei ethol yn Llywydd y sir am eleni.

Bu nifer o aelodau'r Sir yn ymuno gyda Emyr Lloyd cadeirydd 2012-2013 yn rhwyfo nodedig yng nghlwb rygbi Tregaron i godi arian i elusen C.Ff.I Cymru sef cancr. Cychwynnodd y sialens ar nos Wener, Medi 13eg ac roedd cyfle i'r aelodau i helpu Emyr i rwyfo am 24 awr. Ar nos Sadwrn roedd cyfanswm y milltiroedd wedi cyrraedd dros 180 milltir; llongyfarchiadau mawr i Emyr ac i bawb a wnaeth gymryd rhan, a da iawn iddo am gasglu swm arbennig o arian i'r elusen.

Dyma ganlyniadau Clwb 200: Mis Awst 2013 - 1af 58 Dennis Davies, Esgerddedwydd, Pontsian, Llandysul; 2il 67 R G Evans; 3ydd 24 Lloyd & Elizabeth Jones, Ystrad Llanio, Llanddewi Brefi. Mis Medi 2013 - 1af 66 W W & L H Jones, Garth, Beulah, Castell Newydd Emllyn; 2il 48 Dewi Jones, Blaenhirbant, Cwmsychpant, Llanybydder; 3ydd 97 C.Ff.I. Dihewyd.

Sarn Helen



I fynydd Preseli aeth rhedwyr Sarn Helen ar ddydd Sadwrn gŵyl banc Awst i ras Becca. Glyn Price yn gorffen yn ail 38:40, Andrew Abott 40:05, Simon Hall 42:10, Dee Jolly oedd y cyntaf yn ôl yn ras y merched 43:59, Calvin Williams 45:11, Paul McDermott 45:18, Caryl Davies 51:30, Huw Price 51:47 a Gareth Jones 57:42. Yn ennill ras y mochyn du i'r plant oedd Daniel Jones, hefyd cystadlodd Naomi Howell.

Caryl Davies yn gorffen ras 10K Caerdydd mewn 46:19, ac Allen Watts awr 39:02, ras filltir Daniel Jones yn ail, a Dafydd Jones.

10K Bae Abertawe Mark Dunscombe 40:37, Huw Rowcliffe 42:09, Dawn Kenwright 44:29 ac yn gyntaf yn ei chatagory, Caryl Davies 46:08, Katie McDermott 49:07, Eleri Rivers 49:28.

Cafodd Caitlin Page yr anrhydedd i cynrychioli tîm Cymru dan 16 yn ras fynydd pencampwriaeth Prydain ac Iwerydd yn Aberfoyle yn yr Alban. Derbyniodd y tîm y fedal Arian. Da iawn Caitlin.

Llongyfarchiadau i Gareth Payne am ennill triathlon yn Hwlfordd.

Bydd y gyfres gyntaf o traws gwlad Gwent ym Mhont-y-pŵl ar Hydref 19fed; enwau i Caryl Davies.

Côr Corisma

Braf oedd ailgydio yn ymarferion Côr Corisma ar ôl saib dros yr haf. Roedd hi'n hyfryd gweld cymaint yn yr ymarfer a nifer o wynebau newydd. Etholwyd y canlynol yn swyddogion y flwyddyn: Arweinyddes: Carys Lewis; Arweinyddes gynorthwyol: Rhian Evans; Cadeiryddes: Lena Daniel; Is-gadeiryddes: Rhian Evans; Ysgrifenyddes: Megan Evans; Trysoryddes: Eira Price.

Mae croeso i unrhyw un ymaelodi â'r Côr neu ddychwelyd ar ôl seibiant. Os ydych awydd ymuno â ni, criw o ferched sy'n llawn brwdfrydedd ac egni ac wrth ein bodd yn canu a chymdeithasu bob yn ail nos Lun, cysylltwch â'n harweinyddes Carys ar 01570 422349.

Ymarfer nesaf, 7 Hydref 2013 am 8 yr hwyr yng Nghanolfan Cwmann.

Diolch

Hoffai Gethin, Sian, Gwenllian a Tudur, Croesor, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau ar enedigaeth eu merch a'u chwaer fach, Esther Llwyd.

Sefydliad y Merched

Cafwyd cyfarfod yn y Ganolfan ar Nos Lun yr 2il o Fedi. Croesawodd Morfudd Slaymaker bawb gyda thristwch yn dilyn marwolaeth sydyn ein cyn Lywydd Ann Lewis oedd wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar dros y blynyddoedd. Cafwyd munud o dawelwch i ddangos ein parch ac i gofio amdani. Derbyniwyd llythyr oddi wrth deulu Bronwydd yn diolch i'r Mudiad am eu cefnogaeth.

Estynnodd Morfudd groeso i aelod newydd sef Marian Roberts. Da clywed fod June James yn gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Llongyfarchion i Avril Williams ar ddod yn hen famgu ac i Dilys Godfrey yn dilyn ei llwyddiant mewn sioeau dros yr Haf.

Cyflwynodd Morfudd ein gwestion am y noson sef Mary Williams a Mair Jones o Landeilo fu'n rhoi hanes eu taith o amgylch Tseina, drwy siarad a dangos ffilm. Cafwyd amser diddorol iawn yn dilyn eu taith i wahanol fannau yn cynnwys dinas Beijing, wal fawr Teseina a'r afon Yangtze.

Diolchodd Gwynfil Griffiths iddynt am noson mor hwylus lle'r oedd pawb yn teimlo fel pe baent wedi bod yn rhan o'r daith.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 7fed o Hydref - Cinio yn y Grannell Llanwnen am 7 o'r gloch.

Cyrddau Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch

Bethel Parcyrrhos a CFfI Cwmann ar nos Fercher 9 Hydref am 7yh. Disgwylir Hazel Charles-Evans, Llandybie i wasanaethu. Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Caersalem Parcyrrhos ar nos Iau 10 Hydref am 7yh. Disgwylir y Parch Huw George Llandisilio i wasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Ysbyty

Gwellhad buan i Maureen Evans, Brynmaen yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llanelli.

Hefyd rydym yn meddwl am Ormond Jenkins, Tandderi sydd wedi treulio rhai wythnosau yn yr Ysbyty yn Glangwili.

Dyweddiö

Llongyfarchiadau i Darren Gregson, Werna a Bianca sydd newydd ddyweddiö. Pob lwc i'r ddau.

Clwb 225 – mis Medi

£20 – 142 – Miss C. Powell, Penbryn, Cwmann. £15 – 107 – Ryan a Gabrielle Davies, Delfan, Cwmann. £10 – 192 – Mrs E. Jones, 3 Heol Hathren, Cwmann. £10 – 180 – Mrs J. Thomas, Gwlith-y-Wawr, Cwmann. £10 – 177 – Mr G. Jones, Fronant, Cwmann. £10 – 141 – Mr S. Mason, Bryndolau, Crug-y-bar. £10 – 214 – Mrs W. Evans, Parcyrrhos, Gorsgoch. £5 – 219 – Mr. R. Rothery, Golwg-y-dyffryn, Cwmann. £5 – 2 – Mr D. Herbert, Dolfor, Cwmann. £5 – 155 – Mrs Fullard, Fronhaul, Cwmann.

Neuadd Sant Iago – Clwb 125

£20 – 112 – Women's Workshop, Neuadd Cwmann. £10 – 116 – Irfon Williams, Bryneiddig, Cwmann. £5 – 25 – Eifion Williams, Crown Stores, Llambled. £5 – 33 – Angharad Price, Brynderi, Cwmann. £5 – 90 – Margaret Jones, Y Glyn, Cwmann. £5 – 102 – Cai Luker, 36 Heol Hathren, Cwmann. £5 – 144 – Aneurin Jones, Hathren, Stryd y Bont, Llambled. £5 – 131 – Lorena Edwards, Wern View, Cwmann. £5 – 82 – Wayne Evans, Annwylfan, Llanllwni.

Rhifyn Tachwedd

Yn y Siopau
Tachwedd 7fed

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Hydref 28ain



Sian Roberts-Jones Trefnydd Carnifal Cwmann yn cyflwyno sic o elw carnifal 2013 am £1,000 i Lyn Thomas a'i ferch Nancy tuag at elusen Ffibrosis Systic, ynghyd â rhai aelodau Pwyllgor Pentref Cwmann Eirwyn Williams, Ronnie Roberts, Eiddig Jones ac Eric Williams a Lis Williams, Llywydd y dydd a chwaer Lyn.



Dyma lun o blant Cylch Meithrin Coedmor yn ddangos thema'r tymor hyn sef Y Gofod yn dilyn y llyfr y roced rasio.



Llongyfarchiadau mawr i Rhydian Thomas, sy'n aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Cwmann, sydd wedi ennill cystadleuaeth 'Bugail Ifanc y Flwyddyn' dros Ewrop. Roedd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal yn Belac yn Ffrainc, lle roedd cynrychiolwyr o wledydd tramor Ewrop yn cystadlu yn ei erbyn. Cafodd Rhydian ei ddewis i gynrychioli Cymru pan enillodd gystadleuaeth Bugail Ifanc y Flwyddyn yn yr 'NSA Sheep Event Cymru' ym mis Mai. Roedd y gystadleuaeth yn agored i unrhyw un o dan 26 oed, lle roedd amrywiaeth o dasgau amaethyddol gan gynnwys cneifio, arholiad papur, cwrs beic modur, dewis wyn tew, doso a thrin traed defaid a barnu wyn carcass. Llongyfarchiadau mawr ar ei lwyddiant am ennill y gystadleuaeth fawreddog 'Bugail Ifanc y Flwyddyn' dros Ewrop. Da iawn ti!

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Daith cyfres teithiau'r haf i ben gyda thaith fach weddol agos i gartre. Cafwyd y fraint o ymweld ag Eglwys y carcharorion Eidalaidd yn Henllan, a Mr Jon Meirion Jones, Pontgarreg, yn rhoi'r hanes eithriadol o ddiddorol i ni.

Esboniodd ef, a Mr Jim Thompson, perchennog y safle, sut y daeth yr Eidalwyr i fod yno yn ystod yr Ail Ryfel Byd, wedi eu cymryd yn garcharorion yng Ngogledd Affrica, a sut y bu iddynt greu'r Eglwys unigryw hon. Dim ond adeilad gwag a ganiateid iddynt - rhaid oedd creu'r allor a'r addurniadau eu hunain. Casglwyd tuniau corn-beef er mwyn gwneud canwyllbrennau a nifer o bileri marmor; y paent wedi ei wneud o lysiau a ffrwythau, ynghyd â gwastraff o'r gegin.

Bu nifer o'r carcharorion yn cydweithio er mwyn creu'r eglwys, ond yr arlunydd oedd Mario Ferlito. Ail-gysylltwyd ag ef trwy gywaith plant o dan ofal Jon Meirion Jones yn Ysgol y Ferwig yn 1976, a chyn pen fawr o dro daeth nifer o'r cyn-garcharorion draw i ymweld â'r safle yn Henllan unwaith eto, a'r dagrau'n llifo wrth weld yr Eglwys fach a'r holl addurn yn dal i fod yno, er bod cabanau eraill y gwersyll wedi mynd. Diolchwyd yn gynnes i Jon am yr hanes unigryw gan Eifion Davies, gan ddiolch hefyd i Jim Thompson am ei gydweithrediad yntau.

Aed ymlaen i'r Amgueddfa Wlân yn Nrefach Felindre, ac wedi cael ychydig luniaeth, bu Keith Rees yn ein tywys o amgylch, gan roi hanes y diwydiant gwlân, fel yr oedd yn nyffryn Teifi cyn codi'r melinau, a'r trawsnewid a fu wedyn. Esboniodd y broses o drin y gwlân wedi ei olchi, ei wahanu a'i gribo, ei nyddu a'i liwio, cyn mynd i wneud blancedi, carthenni, ayyb. Gwelwyd nifer o'r rhain yn yr arddangosfa, a mawr oedd y diddordeb, gan fod gan bawb rhywbeth tebyg yn eu cartrefi.

Cafwyd ychydig amser yn nhref Aberteifi cyn troi am adre, a chael pryd blasus unwaith yn rhagor yn y New Inn, Brynhoffnant. Cofwyd am y rhai oedd yn methu bod gyda ni oherwydd afiechyd, a dymunwyd yn dda iddynt i gyd.

Bydd cyfarfodydd y gaeaf yn cychwyn dydd Mercher, Hydref 9fed am 1.30yp yng Nghapel Bethel Drefach.

Capel Brynteg

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Brynteg, nos Fawrth, Hydref 15fed am 7yh, a'r Parch. Goronwy Evans fydd yn pregethu. Sylwer mae'r trydydd nos Fawrth yn y mis yw hwn, nid yr ail un fel sy'n arferol. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys Santes Gwenog.

Estynnir croeso cynnes i bawb i ymuno â ni yng Nghwrdd Diolchgarwch am y cynhaeaf ar nos Lun 7fed o Hydref am 7.00 yr hwyr. Y Parchedig Bonnie Timothy, ficer Llanfihangel ar Arth yw'r ficer gwadd ac edrychwn ymlaen i glywed ei neges. I ddilyn, bydd Swper y Cynhaeaf, dau gwrs, gyda diod, yn cael ei weini yn yr eglwys fach. Enwau os gwelwch yn dda i Mary Thomas, Ffosfald, rhif ffôn 01570 434200. Rydym yn gofyn am daliad o £10 am y bwyd.

Os ydych am chwarae Bingo dewch i dafarn Cefn Hafod, Gorsgoch ar yr 18fed o Hydref am 7.30 yr hwyr. Bwriedir cynnal Beetle Drive ar y 25ain o Dachwedd yn yr eglwys fach am 7.30 yr hwyr. Dyma gyfle i gymdeithasu a chael tipyn o hwyl wrth gwblhau'r chwilen.

Braf yw gweld un o gymeriadau'r pentre sef Stanley Griffiths, Blaenpant yn y gyfres deledu Y Plas. Mae'r gyfres yn rhoi blas i ni ar fywyd yn y 1920au ac mae'n amlwg ei fod wrth ei fodd gyda'i swydd newydd! Da iawn Stanley.

Cofiw'n am bawb sydd yn anhwylyd, ac mae'n dymuniadau gorau i Hazel Thomas, Penpompren sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Gwellhad buan i chi Hazel.

A chofiw'n am bawb sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar. Ein cydymdeimlad â chwi oll.

Clwb 100 Mis Awst: Stephen Mellor, Rhiwson Isaf; Terry Pocock, Llambod; David Rees, Llysdolau, Rhuddlan.

Ysgol Llanwenog

Fe wnaeth gwyliau'r Haf wibio heibio a dyma ni felly ar ddechrau blwyddyn addysgol newydd. Rhaid nodi yn gyntaf rhai gweithgareddau a wnaethpwyd ar ddiwedd tymor yr Haf.

Cawsom ein mabolgampau ar ddiwrnod heulog braf. Hyfryd oedd gweld y rhieni yn ymuno yn yr hwyl. Gwenog enillodd ar ddiwedd y dydd. Elin Lloyd enillodd y darian ar gyfer nifer fwyaf o farciau i'r merched a Sion O'Keeffe enillodd tarian y bechgyn. Llongyfarchiadau mawr i chi'ch dau. Diolch yn fawr i aelodau y WI am eu cymorth fel arfer ar y dydd.

Daeth cyfnod disgyblion blwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd i ben. Cawsom brynhawn hyfryd pan wahoddwyd rhieni a ffrindiau i ddathlu bywyd ysgol y disgyblion hynny. Cawsom gyflwyniadau Powerpoint hwylus iawn gan y disgyblion a bu'r disgyblion oll yn diddanu wrth ganu caneuon. Diolch i Mr Roderick am arwain y gwasanaeth. Paratowyd te blasus



Bu Ysgol Llanwenog yn brysur yn creu gwaith celf a chreffft a llawysgrifen ar ddiwedd y tymor ar gyfer sioeau Cwmsychbant a Gorsgoch. Cawsom lwyddiant eleni eto wrth ennill tarian am y nifer uchaf o farciau yn Sioe Gorsgoch. Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a gafodd wobrau a diolch hefyd i bawb am weithio yn galed a chymryd rhan wrth gefnogi ein sioeau lleol.

gan y rhieni a chasglwyd £182.63 tuag at elusen Tenevous wrth werthu sgons a the. Cyflwynwyd yr arian i Mr a Mrs Arthur Roderick. Diolch iddynt am ddod i gynrychioli'r elusen. Pob dymuniad da felly i ddisgyblion blwyddyn 6 sef Ben, Isobel, Jack, Osian, Sioned a Wyn yn yr Ysgol Uwchradd ym Mro Pedr.

Croeso cynnes iawn i dri disgybl newydd i'r Ysgol sef Nia Ayonoadu, Rhian Williams a Steffan Rivers. Hefyd, mae Mrs Lynwen Holmes a Mrs Nerys Vobe wedi dod i ymuno â ni fel aelodau staff. Croeso mawr i chi hefyd i'n plith. Hoffem ddymuno'n dda i Mrs Liz Williams sydd wedi gadael ei swydd fel cynorthwydd dosbarth. Pob lwc iddi yn ei menter newydd.

Hoffem longyfarch Mrs Eleri Davies ein cogyddes am ddod yn famgu eto. Cafodd Nerys a Gareth fab bach o'r enw Dion yn ystod gwyliau'r Haf. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Byddwn yn cynnal prynhawn coffi yn yr ysgol ar y 27ain o Fedi. Bydd yr arian a gasglwn yn mynd i elusen gancr Macmillan. Croeso cynnes i bawb.

Bydd ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar y 10ed o Hydref am 2 o'r gloch yn Eglwys Llanwenog. Dewch draw i ymuno â ni yn ein diolch.

C.Ff.I Llanwenog

Cynhaliwyd ein noson gyntaf am 2013-2014 yn Ysgol Cwrtnewydd, gyda'r arweinyddion yn trefnu nifer o gemau amrywiol a diddorol ar ein cyfer. Cafwyd noson wych gyda phawb yn joio a chymdeithasu.

Aeth rhai o'r aelodau i Glwb Rygbi Tregaron i helpu a chefnogi cyn-gadeirydd C.Ff.I Ceredigion Emyr Lloyd a oedd yn rhwyfo am 24 awr i godi arian i elusen cancr. Llongyfarchiadau iddo am gwblhau'r sialens.

Cafwyd croeso cynnes yn Fronheulog wrth i ni gwrdd am noson o farnu stoc. Cyfle gwych i rai ohonom i ddysgu sgil newydd. Diolch iddynt am eu croeso a'r lluniaeth.

Bu rhai aelodau'n cymryd rhan mewn gymanfa ym Mrynhafod, Gorsgoch. Cafwyd noson hwylus dan arweiniad Enfys Hatcher.

Treuliwyd noson o greu moctêls yng Nghefn Hafod, Gorsgoch. Crëwyd nifer o ddiodydd gwahanol a diddorol, rhai mwy lliwgar na'i gilydd. Cafodd pawb dipyn o sbort!

18 oed

Dathlodd Rhian Jones, Cefnrhuddlan Uchaf ei phen-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Hydref. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Gwawr Jones, Meysydd ar ei swydd newydd yng Nghaerdydd dros y mis diwethaf. Ar ôl dod at ddiwedd ei chyfnod yn astudio ar gyfer gradd doethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor, derbyniodd Gwawr rôl yn gweithio fel swyddog cangen i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mhrifysgol De Cymru lle mae'n cyd-lynu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol. Pob dymuniad da gyda'r swydd newydd.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Bleddyn Price, Esgereinon ac Emma Jones ar achlysur eu dyweddiad yn ystod mis Medi. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Martha Jones, Cartref Maes-y-felin yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Moelwyn, a fu farw ddiwedd mis Medi. Ymgartrefodd y ddau ym Maes-y-felin ers rhai blynnyddoedd bellach.



Plant y Campws Iau a fu'n llwyddiannus yng nghystadlaethau Eisteddfod Llambled – celf, canu, llefaru, dawnsio ac offerynnau. Cipiodd yr ysgol y darian a £50 am yr ysgol uchaf ei marciau yn yr Adran Gelf a Chrefft, ac Elan y darian am yr unigolyn uchaf ei marciau.

Campws Iau

Dymunwn yn dda i'r disgyblion sydd wedi symud draw i'r campws hŷn ac estynnwn groeso cynnes i'r disgyblion newydd sydd wedi dechrau yn ein plith. Croeso hefyd i'r athrawon newydd yn ein mysg sef Amanda Jones, Michael Davies a Delun Evans, gobeithio y byddant yn hapus iawn gyda ni ym Mro Pedr. Hyfryd oedd cael llongyfarch nifer o'n disgyblion a fu wrthi ar brynhawn gwlyb yn tacluso a chodi sbwriel yn Llambled dan gyfarwyddyd PC Ryan sef Caiyo, Connor, Kieran a Shannon. Llongyfarchiadau i'r disgyblion sydd wedi cael eu hethol ar y Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco sef Ffion Davies, Olli Warren, Jodie Evans, Daniel Farr, Nathan Charles Davies, Klaudia Kalinowska, George Newton, Adrian Miesik, Logan Jones, Kai Moore, Dan Cole, Raglan Hill Smith, Harry Saunders, Filip Poczatek, Kyle Hughes, Rosie Nasr-Butler.



Plant Campws Iau'r ysgol a fu'n llwyddiannus yn yr adran Gelf a Chrefft Sioe Llambled. Hefyd cipiodd Holly wobwr am farchogaeth, Elan y gwpan am y marciau uchaf yn yr Adran Iau am waith celf yn y sioe, Skye y gwpan am y wisg ffansi orau yn y carnifal a Siriol 2ail a 3ydd wobwr am arddangos ei chorgi Sally yn Llanellwedd er mwyn cymhwyso i fynd i Crafts.

Bu ymwelwyr diddorol yn yr Uned Feithrin a'r Derbyn yn ddiweddar. Daeth y plant i mewn â deinosoriaid fel rhan o thema'r tymor. Cafwyd diwrnod o weithgareddau hwylus yn darllen storiâu, gwneud crefftiau ac yn coginio bisgedi siâp dinosor. Da iawn chi. Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 wedi dechrau derbyn gwersi Beiblaidd o dan gyfarwyddyd Janet Hawkins o'r Bible Explorers a diolch iddi am roi o'i hamser prin. Fel rhan o thema'r tymor sef Arwyr daeth Twm Sion Cati / Dafydd Morgan i dreulio bore gyda blynyddoedd 5 a 6 ac fe wnaeth y cymeriad yn fyw i'r disgyblion. Diolch iddo am ddod atom.

O'r Cynulliad gan Elin Jones



Mewn colofn ddiweddar, soniais am y gwaith oedd yn mynd rhag blaen i wella cysylltiadau band-llydan, sydd mor ddiffygiol mewn nifer o ardaloedd yng Ngheredigion. Bydd hon yn frwydr hir, ond caf nodi un darn o newyddion da. Mae'r 'Cynllun Cymorth Band Eang', sy'n caniatáu grantiau o hyd at £1000 o bunnoedd i helpu unigolion a busnesau sydd heb fawr o gysylltiad i fuddsoddi mewn band-llydan lloeren neu ateb amgen, am barhau. Roedd y cynllun gwreiddiol am ddod i ben ddiwedd Medi, ond daw cynllun newydd – gydag enw gwahanol ond bron union yr un telerau – yn ei le. Nodwch fod rhaid cwblhau'r gwaith papur a chael caniatâd y Llywodraeth cyn bwrw ati i gael y cyfarpar, ac mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych ddiddordeb yn hyn.

Mae band-llydan, wrth gwrs, yn hanfodol i nifer o fusnesau, a da oedd dathlu llwyddiant un busnes arloesol sydd wedi ei wreiddio yng Ngheredigion ers y cychwyn cyntaf. Mynychais ŵyl Golwg yn ddiweddar, ac roedd yn wych cael rhannu yn llwyddiant y cylchgrawn, sydd wedi cynnal ei chylchrediad ers chwarter canrif. Rwyf nawr yn derbyn y cylchgrawn ar-lein trwy'r 'Ap' newydd, bob bore dydd Iau, sy'n ddefnyddiol iawn pan fyddaf yn y Cynulliad.

Rhaid peidio anghofio, fodd bynnag, am fathau llai modern o gyfathrebu, sydd yr un mor hanfodol i gynnal busnesau a'n safon byw yng nghefn gwlad. Rwyf wedi bod yn brysur y mis diwethaf gydag ymgyrch yn erbyn cynlluniau Llywodraeth San Steffan i breifateiddio'r Post Brenhinol. Cyhoeddodd y gweinidog, Vince Cable, y byddai'r preifateiddio yn digwydd cyn y Nadolig yn ôl bob tebyg. Y pryder yw na fydd perchnogion preifat newydd wedi ymrwymo i ddarparu'r un gwasanaeth, ac am yr un pris, mewn ardaloedd gwledig a threfol, a gall arwain at golli swyddi a bygwth ymhellach ddyfodol ein rhwydwaith Swyddfeydd Post. Rwy'n benderfynol o ymgyrchu dros chwarae teg i ardaloedd fel Ceredigion.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a
Gwasanaeth fframio lluniau ayy

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org

 **Toriad
Taclus**

Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Llanfair Clydogau

Priodas

Cafwyd priodas allan o'r cyffredin yn ein pentref ni ar ddydd Sadwrn, Awst 24ain pan briodwyd Jonathon Evans, Fferm Llanfair Fawr a Penny Smith, Fferm Esgair Dawe, yn Eglwys Santes Fair. Ni ddefnyddiwyd yr un modur yn y briodas hon. Cerdded wnaeth y priodfab gyda'i frawd Timothy, ei was priodas gyda chefnogaeth Simon Williams, Rob Smith a Jonny Bell, ceidwad y drysau. Cerdded hefyd wnaeth y pedair morwyn briodas sef Melisa Rees, Kimberley Smith, Katie Smith ac Annwen Bell yn edrych yn hyfryd o brydferth mewn ffrogiau hir o liwiau gwanwynol, pob un mewn lliw gwahanol o felyn, pinc, gwyrdd a glas. Cyn bo hir daeth y briodasferch ar fraich ei thad, yn cerdded yn hamddenol lawr y lôn. Roedd Penny yn edrych yn wych mewn ffrog gwta o les gwyn dros ddefnydd sidan gydag esgidiau uchel o ddefnydd gwyn, ei blodau yn syml ac yn cyd-fynd â gwisgoedd y morwynion.



Ar ôl y gwasanaeth, a oedd o dan ofal y Parch Bill Fillery, cerddodd y gwsteion lawr i lan yr afon Teifi lle roedd marci a coctels yn eu disgwyl. Yna yn ôl i gael cinio picnic o fasgedi wedi eu gosod ar fyrddau hir y tu mewn i Tipi mawr oedd wedi ei godi tu ôl i ffermdy Llanfair Fawr. Yn hwyrach yn y prynhawn daeth llawer mwy o ffrindiau a chymdogion at ei gilydd i ddathlu gyda Jon, Penny a'u teuluoedd, gyda mochyn wedi ei rostio yn swper i bawb. Wrth lwc roedd y tywydd yn braf a sych a chafwyd noson i'w chofio. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn sir Befro, Jon yn benaeth TGCh yn Ysgol Green Hill, Dinbych y Pysgod a Penny yn athrawes yn Ysgol Gynradd Hook ger yr Hwlfordd. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Grŵp Cerdded y Pentref

Er gwaethaf y tywydd ar ddechrau'r daith ar ddydd Sul, Medi 8fed, penderfynodd grŵp o tua pymtheg i gerdded fel y trefnwyd, yn gyntaf i Fach Ddu i weld yr adnewyddu yr oedd Julian a Jane Branston wedi'i wneud ar eu maes campio a carafanau. Yna, gyda'r tywydd wedi gwella aethant ymlaen ar hyd heol Cellan nes dod at y llwybr cyhoeddus a dilyn yr afon Teifi a thros y bont yn groes i Heol Llanfair, lle roedd te a lluniaeth ysgafn yn eu disgwyl ym Mhengarn, cartref Dan ac Aerwen Griffiths. Bu yn brynhawn o gymdeithasu braf tra yn edrych ar arddangosfa o luniau Aerwen. Cawsom y cyfle hefyd i ganu a dymuno pen-blwydd hapus i Eleanor Evans, Nantymedd a oedd yn digwydd dathlu ei phen-blwydd. Diolch i Aerwen am y croeso.

Rasus Pentre

Dyma ni wedi cael cyfle i fwynhau achlysur cyffrous newydd sbon yn y pentref pan gynhaliwyd rasmus Clwb Trotian Llanbed ar ddolydd Fferm Pentre. Ar ôl gorfod ei ohirio llynedd oherwydd llifogydd roedd yn bleser cael mwynhau diwrnod braf eleni.



Profodd yn ddiwrnod poblogaidd iawn yn enwedig gan drigolion yr ardal. Bu llawer o ennill a cholli, a phawb wedi mwynhau mas draw. Edrychwn ymlaen yn awr at y flwyddyn nesaf.

Partion Dathlu

Llongyfarchiadau i Alan Leech, Tan yr Esgair, ar gyrraedd oed yr addewid. I ddathlu yr achlysur cawsant dŷ agored o 11yb hyd 8yh gyda chymdogion a chyfeillion yn dod yn eu tro i fwyta ac yfed yr holl fwyd blasus oedd Sally wedi ei baratoi. Er iddi droi i'r glaw, cafwyd amser bendigedig a chroeso cynnes iawn yng nghartref cysurus Alan a Sally.

Yn ystod yr un wythnos bu dathliad arall am yr un rheswm. Y tro hyn Paula a Tony Barker, Ty Coch. Er bod eu pen-blwyddi ar wahân roeddynt am ddathlu gyda'i gilydd cyn taith Tony i Awstralia. Llongyfarchiadau ymlaen llaw iddynt eu dau. Cynhaliwyd y dathlu yma yn neuadd y pentref ar nos Sadwrn, Medi 21ain, pan ddaeth llawer o ffrindiau a pherthnasau ynghyd i fwynhau gwledd o fwyd a chymdeithasu penigamp. Cafwyd miwsig a dawnsio addas wedi ei baratoi a'i redeg gan Al Heron, Siop Llanfair.

Gwellhad Buan

Roedd yn bleser gan bawb o'i gymdogion a'i ffrindiau yn y pentref i wybod fod Tim Evans, Efail Fach, wedi cael llawdriniaeth ar ei glun o'r diwedd ar ôl yr holl ddisgwyl hir. Yr ydym i gyd yn dymuno gwellhad llwyr iddo a di-boen.

Rydym hefyd am ddymuno gwellhad buan i Donald Quan, Blaencwm, sydd newydd cael llawdriniaeth yn ysbyty Treforus.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir cwrdd diolchgarwch Capel Mair ar Nos Iau Hydref 10fed am 7 o'r gloch y.h. Croeso i bawb.

Wedi meddwl hysbysebu
yn eich papur bro?
Ceir prisau rhesymol
iawn gan ddechrau
gydag hysbyseb bach yn

£10 yn unig,

a dim ond
£60 am ddeg ohonynt.

Gwerthfawrogi eich
cefnogaeth.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Alltyblaca

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir y Cwrdd Diolchgarwch nos Sul, 6 Hydref, am 7yh. Bydd yr oedfa yng ngofal y Parchedig J. Eric Jones, Aberdâr. Croeso cynnes.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Sara Humphreys-Jones, Frongelli sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Corsgoch

Diolch

Hoffai Gwyneth, Eifion, Gareth, Huw ac Elfyn Morgans a'u teuluoedd ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb am y negeseuon o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur colli Wyn. Diolch am y cannoedd o gardiau a llythyrau a dderbyniwyd, y llu o ffrindiau, cymdogion a theulu a alwodd ym Mhensarnau i rannu atgofion, ac i'r dyrfa luosog a ddaeth i dalu'r gymwynas olaf iddo yn Eglwys Llanwnnen.

Hoffai'r teulu ddiolch yn ddiwyll i'r Parchedigion Suzy Bale, Goronwy Evans a Cen Llwyd am eu cyfraniad i'r gwasanaeth angladdol ac i'r Canon Eileen Davies am y deyrnged wledig bwrpasol. Diolch i Gwilym C Price, ei Fab a'i Ferched, Trefnwyr Angladdau, am eu gwasanaeth gofalgarg ac i Eiddwen a Geraint Hatcher am eu croeso cynnes arferol yng Nghefn Hafod, Gorsgoch, yn dilyn y gwasanaeth.

Diolch hefyd i'r llu cymdogion a ffrindiau a gyfrannodd at hwylustod y trefniadau.

Cesglir, er cof am Wyn, trwy law'r trefnydd angladdau, tuag at ganghennau lleol Parkinson's UK a Sefydliad Prydeinig y Galon.

YSWIRIANT FUW

**Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai**



Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW,**
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n ddiwydwr a'i nodir gan
Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyfraith-deddfau cyffwrdd yswiriant,
o dan Rôl Cofrestru 309035

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE

01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

**Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,
coed ffrwythau a mwy!**

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp

Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Argau Dydd Llun heblaw Gŵyl y Banc

COMPASS OFFICE SUPPLIES

**Am eich holl
ddeunydd swyddfa**


Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

**15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.**

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambod

☎ 01570 422893 / 422175

CANOLFAN ADDURNO

AA

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwyn, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth torri allwedd a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

**3 Stryd y Bont
Llambod Pont Steffan
01570 423156**

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Hoffem groesawu pawb yn ôl
i'r ysgol ar ôl gwyliau haf hir a
chynnes. Gobeithiwn fod plant
blwyddyn 6 neu blwyddyn 7 erbyn
hyn sef Elin Davies, Leah Kersey,
Madeleine Smith, Owain Jones ac
Owen Schröder wedi ymgartrefu yn
Ysgol Bro Pedr a Macy Symmonds
yn Ysgol Gyfun Aberaeron.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a
gafodd lwyddiant yn y sioeau lleol
dros yr haf.

Ar ddechrau'r tymor rhaid oedd
ethol ein cyngor ysgol newydd.
Cafwyd bore o'r plant yn dangos eu
pŵer pwyntiau gan fynegi rhesymau
pam y dylen nhw gael eu hethol i fod
ar Gyngor yr Ysgol. Roedd llawer
o'r plant wedi ymdrechu'n galed
i wneud eu pŵer pwyntiau. Ar ôl
i bawb ddangos eu gwaith aethon
ni lawr i'r neuadd i ethol y cyngor.
Cafodd pawb o'r lleiaf i'r hynaf
gyfle i bleidleisio.

Dyma'r plant a fydd yn
cynrychioli'r Cyngor Ysgol am 2013
– 2014: Cadeiryddes – Beca Jenkins;
Is Gadeiryddes – Catrin Schröder;
Ysgrifynyddes – Hanna Davies;
Trysorydd – Arwel Williams; Is-
drysorydd – Zachary Wroe; Aelodau
blwyddyn pump a chwech – Lois
Jones a Caitlin Gibbons; Aelodau
blwyddyn tri a phedwar – Lisa
Jenkins a Luned Jones; Aelodau
cyfnod sylfaen – Elan Jenkins a Sara
Davies; Llyfrgellwyr – Lleucu Rees a
Nia Jenkins

Y pwyllgor hybu darllen – Libby
Waterman, Carwyn Davies, Ffion
Williams, Jenna Wilson, Skye
Binding, Danny Waterman, Alaw
Jones, Nathaniel Wroe, Phoebe
Prater a Sophie Weedon. Gobeithio
bydd pawb yn barod am waith caled
yn ystod y flwyddyn!

Mae Cynllun Coop wedi ail
gychwyn ar ôl gwyliau'r haf, sef
busnes 'Bagiau Iachus Cwrt'. Rydyn
ni yn gwerthu bagiau o ffrwythau,
salad a llysiau am £3 i rieni a
ffrindiau'r ysgol. Os hoffech brynu
ffrwythau a llysiau blasus cysylltwch

**Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch
â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n
rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.**



Llun aelodau Cyngor Ysgol Cwrtnewydd

â'r ysgol ar 01570 434 273.

Mae Cynllun Addysg Gorfforol
a'r Cynllun 3 Pwnc wedi dechrau
eto. Rydyn ni yn cwrrdd bob dydd
Mawrth. Byddwn ar un wythnos
yn cyfnewid ysgolion ac ar y dydd
Mawrth canlynol yn mynd i'r
ganolfan hamdden a'r pwll nofio yn
Llambod.

Mae clwb yr Urdd wedi cychwyn
bob nos Fercher. Rydyn ni wedi
bod yn ffodus iawn yn y bythefnos
ddiwethaf i gael cwmni Meleri
Davies a Gwawr Hatcher, disgyblion
y chweched yn Ysgol Bro Pedr, a
hefyd cyn ddisgyblion yr ysgol hon
i ddysgu sgiliau hoci i ni. Diolch
yn fawr iawn i'r ddwy am roi o'u
hamser i ddod aton ni.

Braf oedd croesawu Mr Richard
Burgess i'n plith i ddangos lluniau
ac i siarad â ni am ei brofiadau wrth
deithio i Romania. Hefyd bu'n sôn
am y pwysigrwydd o fynd ati i greu
bocs esgidiau yn llawn nwyddau i
blant bach Romania. Felly ar hyn o
bryd mae plant Cwrtnewydd wrthi
yn llenwi eu bocsys a bydd Mr
Burgess yn dod yn ôl i'r ysgol yn
ystod ail wythnos mis Hydref i'w
casglu.

Byddwn yn cynnal ein Cwrrdd
Diolchgarwch yng Nghapel Seion,
Cwrtnewydd ar brynhawn dydd
Gwener, Hydref 11eg am 1.30y.p.
Croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad
dwysaf ag Alun a Jean Davies,
Werndeg a'r teulu oll yn eu galar o
golli brawd Roland Brown a oedd yn
byw yn Llambod.

Moes a Phryn

Cynhelir Moes a Phryn o dan
nawdd Urdd y Benywod Capel-
y-Bryn ar ddydd Sadwrn, Hydref
12fed am 3.00y.p. yn Neuadd Seion,
Cwrtnewydd. Croeso cynnes i bawb.

Cyrrddau Diolchgarwch

Cynhelir Cwrrdd Diolchgarwch
Capel Seion ar nos Iau, Hydref 3ydd
am 7.00y.h. gyda Delyth Morgans
Phillips yn pregethu. Bydd Cwrrdd
Diolchgarwch Capel-y-Bryn ar nos
Lun, Hydref 7fed am 7.00y.h. gyda
Beth Davies, Gorrige yn pregethu.
Croeso cynnes i bawb.

Clwb Clonc

Hydref 2013

£25 rhif 421 :

Siriol Thomas,
10 Llys Myrddin,
Caerfyrddin.

£20 rhif 230 :

Mrs Vera James,
Y Fron, Heol-y-Bont,
Llambod.

£15 rhif 174 :

Mrs Alwena Evans,
Hafod-y-Gân, Cae Ram,
Cwmann.

£10 rhif 436 :

Mrs Eirlys Thomas,
Awelfa, Llanybydder.

£10 rhif 414 :

Cerys a Steffan Roberts,
Caeronnen, Cwmann.


£10 rhif 25 :

Mrs Eleri Davies,
Pentre, Llanfair Clydogau.

Ar Werth

"Lampeter"

gan George Eyre Evans
(Aberystwyth 1905)



Copi o lyfr enwog a phrin iawn
ar hanes Llambod a'r fro.

Rhif Tanysgrifiad 48
wedi arwyddo gan yr awdur.
257 o dudalennau, cyflwr gweddol.
£85 yn cynnwys cludiant
Anrheg Nadolig Wahanol!

Cysylltwch â David Gorman trwy
gorman_ystwyth@tiscali.co.uk

Gwersi Gitar: Theatr Felinfach
Stafell Gynadledda
Nos Fercher 16.30-21.00

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk



YOUTUBE
Gwersi Gitar Cymraeg
Caneuon Rygbi
Gitar i'r Cristion

01974 299367



Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 8 Gorffennaf 2013 am 8.00yh. Cadeirydd: Eric Davies; Clerc: Eirlys Owen; Gohebydd y wasg: Dewi Davies; Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Croesawyd y Cwnstabl Eleri Bonning i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth am y pentref yn gyffredinol. Soniwyd am y tarw ar y mynydd unwaith eto a bod ceir rasio yno ar adegau. Ac yr oedd cwyn am y cŵn yn y Maes Chwarae wedi dod at sylw y cyngorwyr unwaith yn rhagor. Soniwyd hefyd bod sbwriel yn cael ei daflu ger y Neuadd Gymunedol. Penderfynwyd y byddai'r Cwnstabl yn cysylltu gyda Swyddog yr Amgylchedd Cyngor Sir Gâr.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones. Soniwyd am y clawdd oedd heb ei dorri yn ystod y flwyddyn a chadarnhawyd gan Tom Jones y byddai yn cael ei wneud yn ystod yr hydref.

Ceisiadau Cynllunio: RWE nPower Renewables LTD: Ymgynghori.

Cyngor Sir Gâr: Gwybodaeth am grant o £500.00 i ddatblygu gwefan newydd i Gyngor Bro Llanllwni.

Cylch Meithrin Llanllwni: Nid oedd unrhyw wybodaeth bellach am ariannu plant dros dair oed gan y Sir.

Yr oedd Linda Evans wedi derbyn ymateb am arwydd y siop ac amcangyfrif o £250.00. Cynigwyd derbyn y cynnig gan Dewi Davies ac eiliwyd gan Tom Jones.

Ceisiadau Cynllunio: Yr oedd y Clerc wedi derbyn ymateb oddi wrth Eifion Bowen yn cadarnhau y byddai'r clerch a Linda Evans yn derbyn ceisiadau cynllunio trwy e-bost yn y dyfodol.

Dolafon, 30 mya ger Ysgol Llanllwni a goleuadau'r Ysgol: Gwaith wedi ei gwblhau.

Arosfan Pentop a Erwlun – Gwarallt:

Sbwriel: Doedd dim datblygiad pellach.

Cadarnhawyd nad oedd angen cais cynllunio i osod y seddau a potiau blodau yn y pentref, ond penderfynwyd ar wahanol leoliadau o fewn y pentref ac i'r clerch gysylltu gyda Linda Evans gyda'r awgrymiadau:

Sedd rhwng pen hewl Ffynonddrain â thafarn y Belle Vue; Sedd rhwng fferm y Maes a Plas Villa; Blodau ger Born Free â Ninant House. Os bydd y Clerc yn cael caniatâd yna penderfynwyd y byddai'r Clerc yn archebu dwy sedd cyn cyfarfod Mis Medi.

Sedd - Glasdon; Yr oedd y sedd wedi ei archebu gan y Clerc ac yr oedd Eric Davies a Tommy Davies wedi dechrau ar y gwaith o osod y sedd. Yr oedd coeden wedi cwmpo ger y llwybr a diolchwyd i Tommy Davies am ddod â pheiriant yno i glirio'r safle.

Cyfrifon y Cyngor; Arwyddwyd ffurflenni cyfrifon BDO gan Eric Davies â'r Clerc.

Cyswllt Coedwig Brechfa: Ymgynghoriad yn y llefydd canlynol: Neuadd Eglwys Brechfa - 17 Gorffennaf 2013 - 9.30yb – 4.30yp; Canolfan Waunifor, Maescrugiau – 18 Gorffennaf 2013 – 9.30yb – 4.30yp.

Llwybrau Cerdded: Angen glanhau y canlynol: Eglwys – Pontllwni; Efail. Dim datblygiad pellach.

Cyngor Sir Gâr: Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r canlynol am nad oedd yn cael ymateb i lythron sef: Prif Weithredwr Cyngor Sir Gâr Mark James, Aelod Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr: Jonathan Edwards, Aelod y Cynulliad: Rhodri Glyn Thomas.

Garej Bryndulais: Yr oedd y Cyngorwyr angen gwybod a oedd y Cyngor Sir yn mynd i werthu y garej yn Bryndulais. Yr oedd y Cyngorwyr yn gofidio a byddai'r gwerthiant yn amharu ar y bobl yn defnyddio'r llwybr cyhoeddus i gerdded. Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu â Linda Evans am fwy o wybodaeth.

Adeilad ger y Swyddfa Bost: Yr oedd y Cyngorwyr wedi sylwi bod yr adeilad yma yn beryglus i'r cyhoedd gan fod y to yn dechrau cwmpo. Penderfynwyd y byddai'r clerch yn danfon llythyr i'r perchennog.

Ambiwlans Awyr Cymru: Trafodwyd taith Rhys Meirion i godi arian i Ambiwlans Awyr Cymru. Cynigwyd y byddai'r Cadeirydd, Tom Bowen, yn cyflwyno siec anrhydeddus ar ran y Cyngor Bro ar y diwrnod i Rhys Meirion.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cynhaliwyd Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, hefyd ar nos Lun 9 Medi 2013 am 8.00yh. Cadeirydd: Tom Bowen; Clerc: Eirlys Owen; Gohebydd y wasg: Dewi Davies

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Nid oedd y Cwnstabl Eleri Bonning yn bresennol yn y cyfarfod. Yr oedd y clerch wedi derbyn e-bost oddi wrth y cwnstabl yn cadarnhau nad wy cerbydau yn peri rhwystr bellach ar yr hewl ger Green Hill.

Roedd y cwnstabl wedi cerdded o amgylch y cae chwarae ond wedi methu â chanfod baw cŵn yno. Ond roedd y cwnstabl wedi cysylltu â'r Cyngor Sir

i gael arwydd newydd ger y fynedfa. Yn ogystal roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau y byddai biniau yn cael eu gosod yn y llefydd priodol sef ger y cae chwarae a ger Neuadd y Gymuned.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones a Eric Davies. Yr oedd angen postyn newydd ger iet y fynedfa a hefyd angen iet fach ger yr iet fawr fel bod rhieni/gwarchodwyr yn gallu dod mewn â'r plant mewn bygi. Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngorwyr i fynd ymlaen â'r gwaith ac i archebu y nwyddau oedd eu hangen yn T. L. Thomas a'i Fab. Penderfynwyd yn unfrydol bod angen buddsoddi mewn adnoddau newydd ar y cae chwarae. Penderfynwyd bod y clerch yn gwneud ymholiadau a hefyd yn gofyn i rhieni'r ysgol feithrin a'r ysgol am eu barn.

Seddau a photiau blodau - Yr oedd y gwaith o osod y sedd wedi ei gwblhau gan Eric Davies a Tommy Davies. Cafwyd gwybodaeth gan Eric Davies bod Ranulf Mansel wedi bod o gymorth mawr iddynt i gwblhau'r gwaith.

Cadarnhawyd gan Linda Evans bod angen trwydded i osod y seddau a photiau blodau yn y pentref, a bod angen trwydded "street work". Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Tommy Davies i gael gweld a oedd ganddo y drwydded briodol. Byddai Linda Evans yn e-bostio y ffurflen briodol i'r Clerc.

Ambiwlans Awyr Cymru: Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y gefnogaeth ar ddiwrnod y daith gerdded a oedd wedi ei threfnu gan Rhys Meirion.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 11 Tachwedd 2013 am 8yh.

Cyngor Bro Llanwenog

Adroddiad Cyfarfod Medi - Cadeirydd: Bill Green; Clerc: Gwennan Davies.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r adran briffyrdd mae arwydd newydd wedi ei archebu ar gyfer Llanwenog i'w osod ger troad Abernant ac mae'r pant rhwng Penffordd a Chaerwenog wedi cael sylw gyda'r gobaith na fydd dŵr yn cronni yma yn y dyfodol.

Bydd cysgodfan Alltyblaca yn cael ei lanhau yn fuan ac mae cais wedi ei roi gerbron y Cyngor Sir yn gofyn am fan sefyll er diogelwch plant ysgol sydd yn dod oddi ar y bws ysgol yr ochr draw i'r heol o gysgodfan bresennol Bro Teifi.

Mae golau newydd wedi ei osod ger y gofologfn yn Nre-fach ac mae'r broses o edrych am grant ar gyfer ei atgyweirio yn symud yn ei flaen.

Mae'r ciosgs coch sydd nawr ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned wedi eu peintio a'u hatgyweirio; bydd pinfwrdd yn cael ei osod yng nghiosgs Drefach, Cwrtnewydd a Chwmsychpant a bydd cyfle i hysbysebu digwyddiadau. Mae CFFI Llanwenog hefyd wedi cytuno rhoi arddangosfa o luniau ym mhob ciosg.

Bu'r Cyngor Cymuned yn llwyddiannus i gael grant ar gyfer cael meinciau newydd i'r Plwyf ac mae Dai Davies, Caerwenog wrthi'n brysur yn eu gwneud. Byddant yn eu lle erbyn diwedd mis Hydref. Mi fydd y rhai pren sydd dal mewn cyflwr da yn cael eu cyflwyno i wahanol fudiadau a lleoliadau o fewn y plwyf. Os ydych yn gwybod am fudiad sy'n edrych am fainc, rhowch wybod i'r Clerc mor fuan â phosib os gwelwch yn dda.

Mae'r Clerc yn brysur yn cyd-weithio gyda chwmni lleol i greu gwefan ar gyfer y Cyngor Cymuned. Yn unol â'r gyfraith rhaid i agenda, cofnodion a gwybodaeth gyffredinol am y cyngor fod ar gael yn electronig. Mae grant ar gyfer y gwaith yma wedi ei dderbyn oddi wrth y Cyngor Sir a bydd y cynnwys yn ddwyieithog. Os hoffech i'ch digwyddiadau gael eu nodi ar y wefan yna e-bostwch y clerch ar gwens1985@hotmail.com.

Cyngor Tref Llambod

Y Maer: Dorothy Williams; Clerc: Eleri Thomas; Cyngorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cyngorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 29 Awst 2013 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan. Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Rob Phillips.

Plismona - Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir am wybodaeth ynglŷn â rheoliadau ac is-ddeddfau yn ymwneud â baw ci.

Roedd y Cyngor Sir wedi ailosod arwydd yn cyhoeddi parth di-alcohol ger Parc yr Orsedd.

Achwynwyd am ddiffyg presenoldeb yr heddlu ar y noson yn dilyn Sioe Llambod. Penderfynwyd gofyn i'r heddlu drefnu presenoldeb gweledol yn y dref adeg cynnal achlysuron o'r fath.

Bwriedir ailagor desg flaen gorsaf heddlu Llambod ar ddau fore'r wythnos.

Penderfynwyd asesu gwybodaeth ar wefan y cyngor yn flynyddol.

Hysbyswyd y Cyngor bod y Swyddfa Bost wedi penderfynu codi safon y Swyddfa Bost yn Stryd y Bont. Disgwylir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn 1 Hydref. Yn y cyfamser gall cwsmeriaid ddefnyddio cyfleusterau swyddfeydd post yn Llanybydder a Llanfair Clydogau.

Y Cae Criced - Hyderir y bydd modd datrys yr anawsterau ar fyrder.



Enw: **Angharad Morgan-Isaac**
Oed: 23
Tref: Llanbed
Gwaith: Gyrru bws a helpu'r rhieni i redeg y fusnes.
Teulu: Mam, Dad a Gareth y brawd.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Treulio amser efo Dad-cu a Mam-gu Llanbed yn y Garej.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Save by the Bell.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.

Cwmpo'n lletchwith wrth wisgo sgidiau uchel ... wpsi!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

Trin pawb fel wyt ti moyn cael dy drin dy hun.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?

Gwneud yn fawr o bob cyfle.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?

B*witched

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Gweithio gyda'r Ambiwllans

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?

Cael row gan dad am geisio gyrru'r bws o amgylch yr iard pan oeddwn yn 11 oed heb yn wybod iddo.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?

Penwythnos bant yng Nghaerdydd, ges i fy sbwyllo'n rhacs!!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Cymdeithasu 'da ffrindiau yn enwedig ar nos Sadwrn.

Beth yw dy lysenw?

G&M neu Pwmps.

Beth yw dy arbenigedd?

Gyrru Bws.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Sdim un diwrnod yr un peth, rwy'n cal y cyfle i gwrdd â phobol newydd ac rwy'n cael gweld tipyn o'r byd/cefn gwlad.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?

Gweithio pob oriau.

Y peth gorau am yr ardal hon?

Byw yn agos i deulu a ffrindiau.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Y rhewlydd cul.



Pa mor wyrdd wyt ti?

Rwy'n ail-gylchu cymaint ag y galla i.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?

Cymraeg.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?

Person diog.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Prynu tocyn i Awstralia a Seland Newydd a gwario'r gweddill yno.

Beth sy'n codi ofn arnat?

Cŵn

Pryd llefaist ti ddiwethaf?

Yn Maes Awyr New York, o'n i ddim moyn gadel America.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?

Gweld ceir wedi parco unrhywle ac unrhywffordd o flaen yr ysgol am 3:30y.h.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?

Mewn Hoogan (Mud Hut) yng nghanol Monument Valley yn America.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?

Yr haf

Unrhyw ofergoelion?

Dim rhoi esgidiau newydd ar y bwrdd.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Pasio fy mhrawf bws.

Ac yn bersonol?

Graddio o Brifysgol Aberystwyth yn 2012.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?

Ma bywyd rhy fyr i ddyfaru.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

Cer amdani!

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Mynd i'r Brifysgol, o'dd gofyn tyfu lan.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

'Happy Go Lucky'

Pa gar wyt ti'n gyrru?

VW Golf gwyn.

Beth yw dy hoff air?

'Joio!' ne 'Gwd de!'

Beth yw dy hoff adeilad?

Ice Hotel yn Sweden.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?

Daniel Craig.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Indian.

Beth yw dy ddiod arferol?

Glasied o Rose.

Beth yw cynnwys dy oergell di?

Ma oergell Mam rhy handi.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Little Prisoners gan Casey Watson.

Beth yw dy hoff arogl?

Porfa sy newydd ei dorri.

Sut wyt ti'n ymlacio?

O fla'n y tân neu mynd bant am benwythnos.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?

1,298

Hoff gân ar dy ipod?

Katy Perry-Roar

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?

Gormod

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?

Catrin Pugh.

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?

Fast & Furious 6.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

Y laptop, gormod o waith a lluniau arno i'w golli.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni?

Chwarae'r gitâr.

Beth sy'n rhoi egni i ti?

Nofio.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?

Noson allan yn Las Vegas

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?

Mamgu Llanbed

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti nawr?

Dad a Mam

Y gwyliau gorau?

Teithio America yn haf 2013

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn 50?

Yr Wyddfa, Pen-y-Fan a Llys-y-Frân.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?

Seland Newydd, Awstralia a Thailand.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?

Teithio i Awstralia, priodi a chael plant.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?

Gosod y larwm.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?

Byw yn hapus yng Nghymru, gobeithio.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Dorian Thomas, Pant-y-gwin.

Llanbedr Pont Steffan

Diolch

Dymuna Aneurin a Sallie, Hathren, ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y galwadau, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch am bob dymuniad da.

Cymdeithas Hanes

Daeth cynulliad da ynghyd i'r Hen Neuadd ar noson gyntaf y tymor newydd. Croesawyd pawb gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, cyn cyflwyno'r siaradwr, yr Athro David Austin. Chwaraeodd ran ddylanwadol yn sefydlu'r Gymdeithas Hanes, ac ef oedd y Cadeirydd cyntaf. Yn Athro yn y gyfadrann Archaeoleg yn Ngholeg y Drindod Dewi Sant, mae wedi byw yn Llambled ers 37 o flynyddoedd erbyn hyn.

Tua deg mlynedd yn ôl, rhoddodd ddarlith i'r gymdeithas ar ardal Cellan, a chan fod ei waith o ddarganfod ac ymchwilio yn dal i ymledu, teimlai ei fod yn bryd i ninnau 'Ail-ymweld â Chellan'. Trwy gyfrwng lluniau, daeth a hanes 6000 o flynyddoedd yn fyw i'r llygad.

Trwy astudio'r tirlun, medrai weld lle bu pobl Oes y Cerrig yn byw, â'r meini mawr yn nodi ffiniau'r cymunedau, tra byddai trigolion yr Oes Efydd yn codi carneddau i wneud yr un gwaith. Roedd yna gymuned amlwg yr Oes Efydd yn yr ardal lle saif Tafarn y Fishers heddi', a nifer o gytaiau wedi eu codi, - yn debyg i'r rhai a welir yng Nghastell Henllys. Rhed y ffordd fawr drwy ganol beth fyddai'r 'pentre' Celtaidd.

Dangoswyd ar gyfres o fapiau lle byddai ffiniau'r Hendre a'r Hafod, a'r Penclawdd yn rhannu'r ardal. Cwrtaith yr anifeiliaid dros y gaeaf yn llesol i wella'r tir er mwyn codi cynydau ar llawr gwlad yn yr haf, tra byddai'r gwartheg yn pori'r ffriddoedd. Rhannwyd y tir ffrwythlon yn lleiniau hirsgwar, yn erw o fesur, ac y maent i'w gweld o hyd, - ac enw Capel yr Erw yn dynodi'r arfer.

Codwyd tua 26 o dai unnos ar y mynydd, a thrigolion y rheini yn crafu bywoliaeth, - ni ddangoswyd y tai hyn ar fapiau'r degwm 1843, gan eu bont yn anghyffreithlon, ond fe'u rhestrwyd yn y Cyfrifiadau. O dipyn i beth, wrth i'r tir uwch cael eu amgáu, symudwyd i lawr o'r mynydd, gan greu cymunedau yn Pentrefelin a'r pentref, pobl broffesiynol yn byw yn yr ardaloedd yma, a'r diwydiant coedwigaeth yn prynu tir y mynydd er mwyn plannu coed unwaith eto.

Roedd yr hanes fel darnau o jig-so, yn dod at ei gilydd i greu cyfanwaith hynod o ddiddorol, a diolchwyd i David Austin am noson arbennig gan y Cadeirydd.

Bydd y cyfarfod nesa nos Fawrth,

Hydref 15fed, pan fydd Lyn Ebenezer yn sôn am ei 'Atgofion o'r Bont'. Cyflwynir y ddarlith hon yn Gymraeg, ond fe fydd yna wasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r di-Gymraeg. Croeso cynnes i bawb.

Sioe Llanbed

Canlyniadau'r Babell Sioe 2013: Cynnyrch Fferm – Aeron Davies, Llainffynnon Cribyn; Cynnyrch Gardd – Gwyndaf Morgan, Cilcennin; Crefftiau Gwlad – Reg Marshall, Henffordd; Crefftiau Gwlad – Ieuan James, Aelybryn Llanbed; Blodau – Erika Davies, Felinban Llanwnen; Celfyddyd Blodau – Beryl Bates, Llys Hedd Ffossyffin; Coginio – Dorothy Lewis, Plas Blaenpennal; Gwinoedd – Megan Richards, Brynderi Aberaeron; Cyffeithiau – Mrs Jones, Caeglas Cwrtnewydd; Gwaith Llaw – Eluned Davies, Bryniau Dihewyd; Ffotograffiaeth – Bet Nicholls. Plant Ysgol Feithrin a Chynradd – Beca Elan Ebenezer, Ty'r Banc Llanbed. Plant Ysgol Feithrin a Chynradd dan 5 oed – Ifan Jones, Ffossyffin Cellan. Plant Ysgol Feithrin a Chynradd dan 8 oed – Yn gydradd: Ffion Edwards, Ysgol y Dderi a Steffan Evans, Cwm Llanybi. Plant Ysgol Feithrin a Chynradd dros 8 oed – Elan Jones, Ysgol Bro Pedr. Plant Ysgol Uwchradd – Ffion Jenkins, Tyllwyd Maestir. Canolfan y Bont – Canolfan y Bont: Nifer uchaf o bwyntiau yn Adran y Plant – Ffion Jenkins, Tyllwyd Maestir; Nifer uchaf o bwyntiau yn Y Babell – Erika Davies, Felinban Llanwnen; Clybiau Ffermwyr Ifanc – Elen Powell, Felindre Uchaf Cwmann.

Diolch i'r holl gystadleuwyr am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen i'ch gweld y flwyddyn nesaf eto.

Os ydych am brynu goblet dathlu'r sioe, mae angen i chi roi enw a thâl o £10 i un o swyddogion y sioe, dim hwyrach na noson y ginio sef y 1af o Dachwedd 2013. Cynhelir y ginio yn Coleg Llambled; Clive Edwards fydd diddanwr y noson. Estynnwn groeso cynnes i chi ymuno â ni. Cynhelir Cymanfa Ganu'r dathlu nos Sul yr 17eg o Dachwedd yng Nghapel Shiloh dan arweiniad Twynog Davies a Bryan yr Organ yn cyfeilio. Llywydd y noson fydd Miss Elin Jones A.C. Tocynnau a/neu rhaglenni ar gael oddi wrth Swyddogion y Sioe. Edrychwn ymlaen i'ch gweld.

Aelwyd yr Urdd

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd cyfarfod agoriadol tymor newydd Aelwyd yr Urdd wedi mynd heibio. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 22 Hydref sef noson o hwyl calangaeaf yng ngofal Geinor Medi. Mae'r aelodaeth yn parhau yn £6 eleni ond yn codi i £7 ar ôl 25 Hydref. Estynnir croeso i aelodau hen a



Neil Howard, Llywydd Rotari Llambled, yn cyflwyno sic o £250 i elusen y clwb ar gyfer 2013, sef Cŵn Clyw ar gyfer y Byddar. Ceri Howard a'i chi tywys, Vinny, sy'n derbyn y sic. Hefyd yn y llun mae Rhys Bebb Jones, Is-Lywydd. Cyflwynwyd y sic yng ngwesty Llain y Castell, Llambled.

newydd.

DALIER SYLW: Bydd yr Aelwyd yn cwrdd y tymor hwn ar gampws hŷn Ysgol Bro Pedr. Am fanylion pellach cysylltwch â Geinor Medi neu Janet.

Gyrfa Chwist - Cartref Hafan Deg

Ar 29ain o Awst cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn Cartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llanybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn - Dynion - 1af - Gwendoline Jones, Llanybydder. 2il - Ifan J. Jones, Bro Henllys, Felinfach. 3ydd - Gwen Davies, Llanwnnen. Merched - 1af - Lil Thomas, Ffostrasol. 2il - Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambled; 3ydd - Nancy Davies, Heol y Wig, Llambled. Carden Miniature - Dynion - Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambled. Merched - Ceri Lloyd, Ffostrasol.

Yna ar 11eg o Fedi cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn Cartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llanybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn - Dynion - 1af - Gwendoline Jones, Llanybydder. 2il - Mai Williams, Tregaron. 3ydd - Peggi Davies, Bro Henllys, Felinfach. Merched - 1af - Marged Phillips Tregaron. Cydradd 2il - Gwen Davies, Llanwnnen a Ceri Lloyd, Ffostrasol. Carden Miniature - Dynion - Richard Stevens, Heol y Goedwig, Llambled. Merched - Eiry Jones, Llambled. Bwrw Allan - Enillwyr - Gwen Davies, Llanwnnen a Richard Stevens, Llambled. Ail - Ifan J. Jones, Brohenllys, Felinfach a Dilwen Roderick, Stryd y Bont, Llambled

Bydd y Gyrfaoedd Chwist Mis Hydref ar y 9fed a 23ain. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Gwynfor Lewis, Bronwydd a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob cefnogaeth a negeseuon o gydymdeimlad a

dderbyniwyd yn ystod eu colled diweddar pan fu farw Ann. Cynhaliwyd angladd breifat yng Nghapel Bethel Parcyrhos dan ofal ei gweinidog y Parch Huw Roberts, gyda'r Parchedigion Goronwy Evans, Jill Tomos ac Eirian Lewis yn cymryd rhan. Gwasanaethwyd ar yr organ gan Mrs Glesni Thomas. Bu pawb mor garedig ar adeg anodd iawn. Diolch yn fawr.

Cesglir tuag at elusen Ymchwil Cancr DU a Chapel Bethel er cof am Ann, trwy law Gwilym C Price ei Fab a'i Ferched, Llambled.

Adran yr Urdd Llambled

Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn ystod ein cyfarfod cyntaf yn chwarae bingo a diolch i Anthea am drefnu. Diolch hefyd i Owen, Arthur, Owain a Miss Davies am alw. Bydd ein cyfarfod nesaf ar Hydref 7fed yn neuadd y campws hŷn am 4.45 – 5.45 pan fydd Delun Evans yn dod atom i wneud gwaith crefft.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Efeillio

St Germain sur Moine yn dathlu deg mlynedd i dref Llambled. Dyma ni yn barti o 26 ar fws i Portsmouth i ddal y bad i Caen yn Ffrainc. Dyma adael Portsmouth gyda'r hwyr, harbwr y llynges frenhinol a hwylio ar un o longau y Brittany Ferries, Mount San Michael. Yn y bore teithio i weld Arromanches.

Ar y Normandy, lle bu brwydro gwaedllyd ar y traeth amser yr Ail Ryfel Byd; yma y mae llawer o arwyddion y frwydr wedi ei gadw. Bayeau nesaf yn hen dref ac yn llawn hen adeiladau o'r canrifoedd a fu ac Eglwys Gadeiriol drawiadol yn y canol. Croesi Llydaw yn awr i Rennes ac i lawr i Nantes i gyrraedd ein gefeilldref.

Pawb yn ein disgwyl yn mharc

Llanbedr Pont Steffan



Cynllun clirio sbwriel wedi'i drefnu gan Ryan Jones, PCSO, ym maes chwarae Maesyderi, Llambed. Doedd y tywydd ddim yn ffafriol, ond daeth nifer o wirfoddolwyr ynghyd, yn cynnwys y Cynghorydd Sir Ivor Williams, Cynghorydd y Dref Chris Thomas, aelodau o'r Ford Gron ac Eglwys San Peder.

y dref ac yn ein cofleidio - hen a newydd a chael yfed dropyn bach o win, muscadet lleol. Y Maer Dennis Vincent oedd y prif reolwr yno.

Dyma ddechrau ar ein tridiau o grwydro'r ardal. Cestyll a hanes yn gyntaf yn Tiffauges. Actio milwyr a hen arf ac arfogaeth ar draed ac ar gefn ceffylau. Lle trawiadol ar fryn, gydag afon o'i amgylch.

Clisson yr ail ddiwrnod yn dref hynafol a chastell yn y canol. Yma oedd y farchnad wythnosol yn llenwi'r strydoedd. Bwydydd lleol yn driblyth ar y stondinau gyda physgod, cimwch, ffrwythau, llysiau, dillad a chreiriau yn gwneud môr o liwiau.

Pawb yn mwynhau cymysgu gyda'r brodyr lleol. Tref hanesyddol frenhinol sydd yma, a fu yn brwydro yn y ddeunawfed ganrif yn y Vendee.

Yna symud mlaen i winllan Domain Clair Moreau Theobaud. Croeso cynnes arall ac yn cael hanes cyn profi'r gwin a phrynu beth oedd eisiau i bobl Llanbedr gael mwynhau hefyd. Cinio wedyn mewn parc ar lan afon a joio'r awyrgylch. Aeth rhai ar ganŵ ar yr afon.

Yr oedd perfformiadau theatrig yn ein disgwyl yn y nos. Yn rhan o'r grŵp oedd theatr Llanbedr gyda deg o blant am arweiniad Annie May. Cawsom berfformiad trawiadol gan y grŵp am deithio tramor. Yn dilyn yr oedd perfformiad gan y Ffrancwyr, yn lliwgar a byrlymus. Cerddoriaeth a chanu wedyn yn y neuadd i ychwanegu at y llawenydd. Diolch i Marie Noel Theatr St Germain. Hefyd diolch i bwyllgor St Germain sur Moin am eu brwdfrydedd.

Dydd Sadwrn yn dechrau'n hwyrach ar ôl noson fawr! Aethom i brif ddinas y dalaith, Cholet. Siopa gyntaf mewn ardal newydd tu allan i'r dref, popeth ar gael yno. Dyna'r ffordd heddiw ond mae yr hen dref yn colli masnach, a ninnau fel twristiaid yn colli treftadaeth. Picnic ar lan llyn Ribaud gerllaw yn

bleserus iawn. Ymlaen i Maulvier lle mae plas ardderchog a gerddi hudolus. Fe aeth ein tywysydd am y dydd, Christoph, â ni i Ardd Eden, Gardd Japaneiad, a buom yn myfrio wrth gerdded rhwng coed Bonsai mawrion ar ochrau llynnoedd disglair. Nid oedd amser yn meddwl dim yma.

Mynd adref at ein lletywyr yn llawn hyder am y rhyfeddodau o waith dyn a natur. Parti gan bawb gartref ac yn ymddiddori yn ein cyfeillach.

Rhaid oedd dweud Au Revoir fore Sul, a chusannu brwd cyn ffarwelio. Bws yn ein dwyn yn ôl yn hwylus gyda Wyn yn dreifio. Fe'n gadawodd ni tu allan i Portsmouth a Richard ddreifodd ni yn saff yn ôl i Lanbed tua tri o'r gloch y bore. Diolch i Richard Bros am eu trefniadau a'u parodrwydd. Diolch i Selwyn am ei waith yn arwain ac yn enwedig i Carol am y gwaith o drefnu pawb a phopeth.

Sante o Ffrainc a Iechyd da i bawb.

Philip Lodwick

Gofynnir am
gyfraniad o

£5

yn unig er
mwyn rhoi
neges o ddiolch
ym Mhapur
Bro Clonc os
gwelwch yn
dda.



Siec o £4,600 yn cael ei gyflwyno gan Mrs Eileen Jones o Gwili Jones a'i Feibion, Llanbedr Pont Steffan, i Meinir Lewis, Ymgyrch Cancer Cymru.

Bedyddwyr Gogledd Teifi

Taith y Bedyddwyr

Aeth llond bws o aelodau eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi am drip i ardal Abertawe yn ddiweddar. Wedi cyrraedd cyrion y ddinas bu pawb yn mwynhau picnic ym mharc Singleton ar ôl i'r cawodydd gilio a chafwyd cyfle i werthfawrogi'r arddangosfeydd lliwgar o flodau hardd ar hyd y lle cyn teithio mlaen i un o eglwysi'r Bedyddwyr sef Seion Waunarlwydd. Derbyniwyd croeso cynnes iawn i oedfa arbennig yno gan y Gweinidog y Parchedig Derek Rees. Cawsom agoriad llygad i weld tua saith ar hugain o ieuenctid yn bresennol ac roedd awyrgylch yr oedfa yn un mor gartrefol a hamddenol. Profiad gwefreiddiol oedd gwrandao ar saith o'r bobl ifanc yn cyffesu eu ffydd ac yn datgan eu cariad at Iesu Grist cyn cael eu bedyddio yn y pulpud, lleoliad y bedyddfa. Yn ôl eu Gweinidog, mae'r bobl ifanc yma i gyd yn ffyddlon iawn i'r Ysgol Sul yn Seion a phob amser yn barod i gymryd rhan mewn oedfaon, helpu i baratoi bwyd, trefnu blodau a chynorthwyo yng nglwb y plant. Roedd hon yn oedfa i godi calon pawb ac yn un i'w thrysori am amser hir. Fe'n gwahoddwyd wedyn i'r festri ac yno roedd gwledd o ddanteithion o bob math wedi eu paratoi ar ein cyfer a chafwyd cyfle i gymdeithasu gydag aelodau a ffrindiau'r achos yn Seion yn yr awyr agored gan fod y lle dan ei sang.



Ymlaen ar ein taith ac ymweld â chofeb Ilston sydd yn coffâu sefydlu yr eglwys Fedyddiedig gyntaf yng Nghymru 1649 i 1660 ac yn anrhydeddu John Myles ei sylfaenydd. Gan fod y daith i gyrraedd y gofeb braidd yn anodd penderfynodd rhai i beidio mentro ond roedd sawl un wedi mynd ar drywydd hollol wahanol!!

Cyn teithio tuag adre mwynhawyd swper ardderchog yn Llanedi. Offrymwyd gras gan Irene Price a braf oedd ymlacio a sgwrsio o amgylch y byrddau. Diolchodd Janet yn ddiffuant i'n Gweinidog y Parchedig Jill Tomos a Dewi Davies trysorydd y cylch am eu trefniadau trylwyr yn ôl yr arfer, i'r gwesty am y croeso a'r bwyd blasus ac i bawb am eu cefnogaeth gan sicrhau diwrnod diddorol, llwyddiannus a phleserus dros ben.

Rhwng gŵyl a gwaith

Diolch ydi'r gair cynta' y tro yma – diolch i'r bobol a ddaeth draw i gefnogi Gŵyl Golwg a'n helpu i ddatlu ein pen-blwydd yn 25 oed.

Roedd pawb oedd yno'n dweud fod y teimlad yn braf a champws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn lle bach delfrydol i gynnal gŵyl gartrefol.

Mae'n anodd rhoi bys ar yr hyn sy'n gwneud gŵyl dda – pam fod awyrgylch ambell un yn llawer mwy cynnes a hamddenol nag un arall.

Mae'r lle'n bwysig, wrth gwrs, a natur yr hyn sy'n cael ei gynnig ond mae angen rhywbeth arall hefyd – fod pawb sy'n dod yn yr hwyliau iawn, ac felly yr oedd hi yn Llanbed ddechrau mis Medi.

Yr hyn yr oedd pobol yn ei ddweud wedyn oedd eu bod nhw'n licio'r gymysgedd o bethau – o hwyl i'r plant i ddarlith lenyddol ac o Dewi Pws a Radwm i Alan Llwyd a Kate Roberts.

Y bobol a welodd leia' o'r hyn oedd yn digwydd, wrth gwrs, oedd gweithwyr Golwg ei hun – y rhai oedd wedi gweithio'n aruthrol o galed i gael y cyfan i drefn. Ac, er na fedra' i gymryd clod am hynny, rhyw bicio i mewn ac allan o ambell i sesiwn oedd rhaid i fi.

Mi gollais i un o'r digwyddiadau pwysica' – darlith goffa Islwyn Ffowc Elis. Beth bynnag ddaw o'r ŵyl gyfan, y gobaith mawr yw y bydd hon yn datblygu'n ddarlith flynyddol, yn troi o amgylch llenyddiaeth boblogaidd, yn union fel y gwnaeth Islwyn ei hun.

Er yr holl glod i'w nofel fawr, Cysgod y Cryman, mae yna beryg i'r dyn ei hun gael rhy ychydig o glod. Yn ei ddydd, roedd cyhoeddi nofel gan Islwyn Ffowc Elis yn ddigwyddiad o bwys ac mi wnaeth lawer i dorri rhagfarn rhai yn erbyn stwff da, hawdd ei ddarllen.

Mi ges i ddiwedd y sgwrs gan Alan Llwyd yn trafod yr awdures Kate Roberts a'i lyfr ef amdani. O'r hyn glywais i, tydi o'n edifar dim am awgrymu ei bod hi'n caru merched ac mae'n swnio fod ganddo ragor i'w ddatgelu.

Ond yn y sgwrs yn union wedyn roedd y golygydd llyfrau, Bethan Mair, a'r awdures greffittus, Manon Steffan Ros, yn awgrymu nad oedd dynion cweit yn deall sut beth ydi cyfeillgarwch gwirioneddol ddwfn rhwng menywod.

Erbyn i'r geiriau yma ymddangos, mi fydd dramâu byrion Bara Caws am Kate Roberts wedi bod yn Theatr Felinfach a gobeithio eu bod nhw, fel Gŵyl Golwg, wedi cael cynulleidfa wirioneddol dda. Mae'r ddwy ddrama'n haeddu hynny.

Maen nhw'n hollol wahanol i'w gilydd – yr ail y addasiad o straeon Te yn y Grug ac yn llawn o ffraethineb a chymeriadau cofiadwy, y gynta'n ddrama newydd gan Francesca Rhydderch ac yn llawer mwy tawel ei ffordd.

Ond mae sawl un wedi dweud mai honno sy'n corddi'r cof wedyn efo'i stori am gyfeillgarwch o bell ac, yn fwy fyth, am alar. A ninnau'n gweld dwy ddynes sy'n ymddangos yn gadarn ar yr wyneb, yn fregus iawn yn y bôn.

Efallai mai elfen arall a gyfrannodd at glydwch Gŵyl Golwg oedd y cadeiriau ar y llwyfan – cadeiriau cyfforddus fel y basech chi'n eu cael mewn parlwr. Neu, fel y dywedodd y criw comedi ar y nos Iau, fel cartref hen bobol.

Fe lwyddodd Ifan Tregaron i ddefnyddio hynny trwy'r noson a phawb arall yn ymuno i'w drin fel petai'n hen gojar diniwed llawn dryswch. Doedd dim yn ddiniwed yn rhai o'r jôcs dan arweiniad un arall o fechgyn Llanbed, Gary Slaymaker.

Ac mae'n debyg, yn y diwedd, mai dyna oedd y peth mawr – mai yn Llanbed yr oedd yr ŵyl yn cael ei chynnal ... pump gŵyl mewn un, mewn gwirionedd. Roedd hi'n dipyn o wefr gweld bandiau fel Cowbois Rhos Botwnnog a Bob Delyn yn canu ochr yn ochr bron ar lwyfan bach Undeb y Myfyrwyr.

Fel y mae'r Ŵyl Fwyd yn ei ddangos hefyd, mae yna rywbeth am Lanbed ei hun sy'n ei gwneud yn lle da i gynnal digwyddiad o'r fath.



Ryseitiai hawdd yr Hydref

Dyma gasgliad o ryseitiai tymhorol, hawdd i chi y mis yma. Seren y ryseitiai i gyd yw caws, a hwnnw'n gaws Cymreig wrth gwrs. Gyda chymaint o gaws yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn awr a digon yn lleol, does dim esgus na ddarganfyddwch eich ffefryn chi. Gyda'r haul yn diflannu rydym eisiau bwyd cysurlawn cynnes.

Rhowch gynnig ar y casgliad o ryseitiai caws.

Hwrê i'r Hydref!

Gareth.

Caws wedi'i bobi mewn blwch

Cynhwysion

200 gm o gaws meddal Cymreig mewn blwch

Ychydig o berlysiau

Ychydig o bicl cartref

Dull

Trowch y ffwrn i 200°C; 400°F; Nwy 6. Codwch y caws o'r bocs, gwaredwch y papur, yna'r caws yn ôl i'r bocs. Gosodwch ar hambwrdd pobi a phobwch am 15 munud.

Tynnwch o'r ffwrn, torrwrch groes yn y copa. Llenwch efo'r picl a'r perlysiau. Gweinwch gyda darn o dost.



Salad Caws Glas Cynnes

Cynhwysion

4 sleisen o facwn

3 gellygen (pears) wedi'u plicio a'u sleiso, gwaredwch yr hadau

140 gm o gaws glas wedi'i giwbio

Pecyn 100gm o sbigoglys (spinach)

Y gorchudd

Un llond llwy fwrdd o finegr gwin coch

Un llond llwy de o fêl

Un llond llwy de o fwstard grawn

Dwy lond llwy fwrdd o olew'r olewydd

Dull

Torrwrch y bacwn yn sribedi a choginiwch mewn padell ffrio nes eu bod yn 'grisp'.

Ffriwch y gellyg nes yn frown. Cymysgwch gyda'r dail, bacwn a'r caws.

Ychwanegwch y cynhwysion gorchudd i'r badell gyda llond llwy fwrdd o ddŵr. Cymysgwch ac arllwyswch dros y salad.

Tarten caws a mwyar

Cynhwysion

500gm o does

4 wy wedi'u curo


Sudd a chroen dau lemwn.

140 gm o siwgrw caster

Un pot 200ml o 'creme fraiche'

100gm o gaws meddal

100gm o fwyar



Dull

Trowch y ffwrn i 180° C, Ffan 160°C; Nwy 4.

Rholiwch y toes a defnyddiwch i leinio tun pobi 20cm. Gosodwch yn y rhewgell am tua 30 munud. Gwasgwch bapur pobi i'r tun a llenwch â ffa ceginio.

Pobwch am 15 munud. Gwaredwch y papur a'r ffa, brwsiwch ag ychydig wy a nôl i'r ffwrn am 5 munud.

Cymysgwch y cynhwysion eraill a defnyddiwch i lenwi'r crwst toes. Pobwch am tua awr. Gweinwch yn gynnes neu'n oer.



Cegin Gareth

Goedwig

Llanbedr P.S.

SA48 7JP

01570 422 313

Blodau

Cacennau

Dathliadau

Partion

Llanybydder



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Siôn Evans, Pentop ar basio allan fel Guard Cymraeg ym mis Awst ar ôl treulio 28 o wythnosau yn Gattrick. Yna, aeth i Hounslow ym mis Medi i'r 'Prince of Wales Regiment'. Pob lwc i ti i'r dyfodol.

Diolch

Hoffai Siôn, Pentop ddiolch i'r teulu a phawb a wnaeth ei gefnogi pan aeth i Gattrick, ac am y rhoddion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei 'basio allan'. Diolch o galon i bawb.



Yn ystod cyfarfod Mis Medi y Sefydliad y Merched Llanybydder cyflwynodd yr aelodau siec o £200 i fudiad Cŵn Tywys y Deillion. Yn derbyn y siec oedd Sandra Francis a dau o wirfoddolwyr y mudiad, sef Lloyd Francis ac Ann. Yn y llun rhwng Sandra ac Ann gwelir Cathy, un o gŵn y mudiad. Yn ystod y noson bu Sandra yn sôn am waith y mudiad ac am y ffordd yr oeddynt yn dewis ac yn dysgu'r cŵn.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Rhian Wyn, Y Fron ar ei dyweddïad ag Euros Morris, Graigwrtheyrn, Llandysul yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

18 oed

Pen-blwydd hapus i Siôn, Pentop a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Hydref.

Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Aerwyn ac Ogwen, 2 Heol y Gaer, Llanybydder, a fydd yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar ddydd Iau 3ydd o Hydref. Mwynhewch eich diwrnod.

Bachgen bach

Llongyfarchiadau i Lowri ac Eirig Jones, Brynhyfryd ar enedigaeth mab bach, Prys Wyn, brawd bach i Gweno. Hefyd, ŵyr cyntaf i Pugh a Rhiannon Jones, Gorlan. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Diolch

Dymuna Eirig, Lowri a Gweno ddiolch i bawb am y cardiau ac anrhegion ar achlysur genedigaeth Prys Wyn.

Ffarmers

Neuadd Bro Fana

Yn dilyn cyfnod gymharol dawel yn y neuadd dros y misoedd diwethaf, mae Cyngor y Neuadd wedi cychwyn ar ei rhaglen ar gyfer misoedd yr Hydref. Croesewir Cwmni Drama'r Cudyll Coch o Landeilo i'r pentref ar nos Sadwrn, 19 Hydref. Perfformir dwy ddrama – 'Sul y Blodau' gan Paul Griffiths, a 'Wrth y Pwll' gan Peter Hughes Griffiths. Cofiwch ymuno â ni am noson o hwyl. Bydd y ddrama gyntaf yn cychwyn am 7.30.

Mae'r Clwb Crefft yn dal i gwrdd yn y Neuadd ar nos Fercher, ac mae'r dosbarthiadau Yoga bellach wedi symud o nos Iau i nos Fawrth, gyda Kathy Crick o Gellan yn hyfforddi, gan gychwyn am 6.30. Mae grŵp Gemau Bwrdd yn cwrdd ar nos Iau am 7pm, a bydd dosbarthiadau 'cwiltio' yn cychwyn yn yr Hydref. Yn dilyn ymgynghoriad cymunedol a gynhaliwyd yn yr ardal yn y gwanwyn, mae grŵp o wirfoddolwyr wedi dod at ei gilydd gyda'r bwriad o sefydlu menter gymunedol i gychwyn siop, caffi a chaffi rhyngwyl yn y neuadd. Os oes gennych ddi-ddordeb yn y prosiect yma, cysylltwch â Carole Piller ar (01558) 650228 / cmp46@msn.com neu Elaine Parker ar (01558) 650606 / elaineparker@btinternet.com

Bellach, mae gan y Neuadd dudalen Facebook gyda manylion digwyddiadau o fewn y gymuned. Ewch i <https://www.facebook.com/NeuaddBroFanaFarmers> am ragor o wybodaeth.

Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr 2014

Mae ardal Ffaldybrenin a Ffarmers yn trefnu Noson Caws a Gwin yn y Neuadd ar nos Wener, y 1af o Dachwedd, gydag elw'r noson yn mynd

tuag at yr Eisteddfod. Llywydd y noson fydd Elin Watkins, Llanybydder (Rhosybedw gynt), ac mi fydd Hywel Gwynfryn hefyd yn bresennol, ac yn cymryd at yr ocsiwn a gynhelir ar y noson.

Mae parti bechgyn 'Ar Wasgar' yn cynnal Cyngerdd yn Neuadd Bro Fana ar nos Wener, 22ain o Dachwedd. Yr unawdydd fydd y tenor poblogaidd, llawn bwrlwm a direidi o Bencader, Aled Hall, un o'r Tri Tenor. Fe fydd yn noson llawn hwyl. Llywydd y noson fydd Rhodri Gomer Davies, Caerdydd. Mae tocynnau ar gael oddi wrth aelodau'r parti.

Cymdeithas Sioe Amaethyddol Cao a Llanercwys

Cynhaliwyd y Sioe flynyddol eleni ar ddydd Sadwrn, y 7fed o Fedi yn Ffarmers gyda David Davies, Blaentwrch yn Llywydd y dydd. Mae David wedi bod yn weithgar gyda'r Gymdeithas ers ail-gychwyn y Sioe yn y 1970au, a bu yn Drysorydd am gyfnod hir ers yr ail-sefydlu. Roedd yn bleser ei groesawu'n Llywydd 2013, a chafwyd ganddo anerchiad hyfryd a diffuant. Er gwaethaf y rhagolygon, cafwyd tywydd sych ar y dydd, gyda chystadlu brwd yn yr holl adrannau. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y diwrnod. Hon oedd 90fed Sioe y Gymdeithas, a chynhelir cinio i ddathlu y garreg filltir arbennig yma yng Ngwesty'r Plough, Rhosmaen, ar nos Sadwrn, Tachwedd y 9fed. Y gŵr gwadd fydd Wyn Jones, Caerdydd (Buarth yr Oen), un a fu yn weithgar gyda'r Gymdeithas am flynyddoedd, ac yn gyhoeddwr medrus ar y corn siarad. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifenyddion – Mrs Joan Stacey a Ms Karen Stacey ar 01558 650238.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

4	9	7					
5				2	4		
		1	9	4		5	
1				7			
	4	3	8		9	2	1
			6				9
		4		3	8	7	
		5	7				4
					9	3	1

Atebion Swdocw mis Medi:

Enillydd mis Medi yw Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder. Da iawn wir. Diolch hefyd i Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder am gystadlu. Dwy gystadleuydd swdocw selog.

1	3	2	7	5	8	6	4	9
7	6	8	9	1	4	2	5	3
4	9	5	3	2	6	1	7	8
8	1	3	4	6	2	5	9	7
6	4	7	5	8	9	3	1	2
5	2	9	1	7	3	4	8	6
2	7	4	6	9	5	8	3	1
9	5	6	8	3	1	7	2	4
3	8	1	2	4	7	9	6	5

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi wylu gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnwydd,
01570 434 243
07815 962 045



REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso i bedwar o blant i'r Cyfnod Sylfaen – Caio Benson, Sion Davies, Alfie Davies a Lena Buckley-Houston. Maent wedi ymgartrefu'n dda ac yn hapus gyda'u ffrindiau newydd.

Rydym yn dymuno pob lwc i Sian Harris wrth iddi ddechrau cwrs dysgu am flwyddyn yng ngholeg Abertawe. Croesawn Miss Donna Jones nôl atom i gymryd lle Sian. Gobeithio y byddi yn hapus yn ein plith. Croeso hefyd i Lowri Harris o goleg Rhydaman. Bydd yn helpu yn y Cyfnod Sylfaen bob yn ail wythnos tan ddiwedd mis Chwefror.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus mewn sioeau ac eisteddfodau yn ystod yr haf.

Sesiynau hoci sydd gennym yng nghlwb Campau'r Ddraig yr Hydref yma i'r Adran Iau.

Aeth plant yr Adran Iau ar ymweliad â Chastell Dinefwr ar ddechrau'r tymor gan mai 'Cestyll a Dreigiau' yw eu thema. Buont yn ffodus o gael diwrnod sych. Aethant gydag Adran Iau Ysgol Carreg Hirfaen a diolch i Fiona Jones am drefnu'r trip.

Rydym yn casglu dillad ar gyfer cynllun 'Bag2School' eto. Gallwch ddod â dillad i'r ysgol ac fe fydd y lori yn eu casglu fore Iau, Medi 26ain am 9 o'r gloch.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol: Mis Gorffennaf: 1af – Louise Jones, Golygfa; 2ail – Owain Davies, Gwndwn; 3ydd – Eifion Jones, Nantyrhendre; 4ydd – Elliot Taylor, Born Free; 5ed – Susan Pendle, Bro Nantlais; 6ed – Megan Evans, Maes Yr Onnen. Mis Awst: 1af – Annwen Lloyd Thomas, Crossroads; 2ail – Dilys Jones, Tirlan; 3ydd – Jessie Jones, Golwg

Y Mynydd. Mis Medi: 1af – Keith Evans, Brynceirch; 2ail – Jonathan Riley, Manor Afon; 3ydd – Teresa Tullock, Tyn Lon, Maesycrugiau.

Eglwys Sant Luc

Bu'r Noson Goffi a barbeciw flynyddol ar Orffennaf 19eg yn y Neuadd Gymunedol. Roedd yn noson braf o haf, a hyfryd oedd cael croesawu tyrfa gref. Mr a Mrs Oriel Jones oedd y llywyddion, ond yn anffodus methont â bod yn bresennol. Diolchwyd iddynt gan y Ficer, yn eu habsenoldeb, am eu cyfraniad hael i'r gronfa.

Eleni ymunodd Ysgolion Sul Llanllwni, New Inn a Gwyddgrug gyda'i gilydd ar ymweliad â Sain Ffagan. Braf oedd gweld y bws yn llawn, a'r oedolion a'r plant yn cydfwynhau.

Mae dau wasanaeth bedydd wedi bod yn yr Eglwys dros yr haf. Fe wnaeth y Parchedig Suzy Bale groesawu i deulu'r eglwys Sophie Billet ar Orffennaf 28ain. Mae Sophie yn wyres i Mike a Rena Harrington, Pontdulais Hall. Ar Awst 25ain bedyddiwyd Jac, mab John a Tracy Hafan Deg, Llanfihangel ar Arth. Pob bendith arnynt.

Dechreuodd tymor Undeb y Mamau ar ddydd Mawrth Medi'r 11eg gyda gwasanaeth o gymun dan arweiniad Parchedig Suzy Bale. Gwnaeth Betty ac Ifora y darlenniadau. Mwynhawyd cwpaned yn y Neuadd i ddilyn, ac i drefnu amserlen 2013-14. Siaradwraig mis Hydref fydd Sian McClean o Brechfa.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Peter Hector Jones, Teifi Hill, a'r teulu ar farwolaeth ei wraig, Jo. Cafwyd gwasanaeth angladdol cyhoeddus yn Eglwys Sant Luc.

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf hefyd â Mike a Rena Harrington, Pontdulais Hall a'r teulu, ar farwolaeth brawd Mike.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni, Llanllwni am 7:00 o'r gloch ar nos Fercher, Hydref 9fed pryd y disgwylir y Parchedig Wynford Thomas, Castell Newydd Emlyn i wasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Hoffai Geraint, Blaencwmdu ddiolch yn ddiffuant i bawb o'i noddwyr wrth iddo redeg marathon Dinbych y Pysgod yn ystod mis Gorffennaf. Mae £1,020 yn cael ei rannu rhwng elusennau LATCH ac Apêl Klaudia Kalnowska.

Dymuna Eleri, Dewi a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith, mam-gu a hen fam-gu hoffus sef Maud Jones, Fferm Talardd. Diolch i'r Parchedig Canon Eileen Davies am ei geiriau o gysur yn yr angladd.

Gwellhad buan

Dymuniadau da i John Jones, Tafarn Talardd sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Glangwili ar ôl damwain ar y ffordd o Landysul i Llanfihangel-ar-Arth. Gobeithio y bydd yn ôl yn croesawu pobl i'r Talardd yn fuan iawn.

18 oed

Llongyfarchiadau i Ifor Jones, High View a ddathlodd ei ben-blwydd yn 18 oed. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

Cwmsychpant

Noson Bingo

Daeth nifer o gyfeillion yr achos o bob cwr atom i Festri Gapel y Cwm ar nos Wener, Medi'r 20fed i gael mwynhau gêm o Bingo dan ofal Mrs Caroline Davies o Bontsian. Yn ystod y noson tynnwyd raffl fawr 2013 a dyma restr o'r enillwyr: 1. Dewi Jones, Llwynpur, Horeb; 2. Richards, Elmo, Cwrtnwydd; 3. Ina Glain, d/o Cathal, Cwrtnwydd; 4. 01267 281566; 5. Molly Blayne, Frondeg, Pontsain.

Talwyd y diolchiadau gan y Parch Wyn Thomas am lwyddiant y noson gan sicrhau ein bod wedi chwyddo coffrau'r Capel am eleni eto.

Cwrdd Diolchgarwch

Mae croeso cynnes i chi droi i fewn atom i Gapel y Cwm, ar nos Iau, Hydref 17eg am 7:30 o'r gloch pryd y cynhelir ein Oedfa o Ddiolchgarwch am gynhaea'r flwyddyn. Ein pregethwr gwadd eleni yw y Parch Richard Lewis o Bow Street ger Aberystwyth.

Clod i ferch leol

Ymfalchiwn yn y ffaith mai Einir Ryder, Tyngrug Ganol a chyn-aelod o G.Ff.I. Pontsian yw Cadeirydd newydd C.Ff.I. Ceredigion am 2013-2014. Etholwyd hi mewn cyfarfod blynyddol y mudiad yn ystod diwedd mis Medi. Llongyfarchiadau gwresog i ti Einir a phob hwyl gyda'r gwaith pwysig am y flwyddyn sydd o dy flaen.

£17.50 yw pris
Tanysgrifiad
Blwyddyn
Papur Bro
Clonc.
Beth am ei
brynu fel
anrheg i
rywun?

Cysylltwch â
Mary Davies,
ysgrifenyddes
Clonc
ysgrifennydd@
clonc.co.uk

Llangybi a Betws



Disgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol y Dderi gyda Mrs Meinir Evans a fu'n sôn am ei phrofiadau hi wrth deithio'r byd yn ymweld â'r 7 rhyfeddod cyfoes.

Ysgol Y Dderi

Croeso cynnes i'r plant newydd sydd wedi ymuno â ni. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn ein plith. Croeso hefyd i holl ddarpar blant Ysgol Y Dderi ddod i Glwb Wiwerod Bach bob prynhawn dydd Mercher. Am fanylion cysylltwch â'r Ysgol.

Mwynhaodd plant y Cyfnod Sylfaen berfformiad Cwmni Theatr Arad Goch o 'Ble mae'r dail yn cwympo?' yn ddiweddar. Cafwyd perfformiad cyffrous gyda'r cymeriadau'n dod â'r stori'n fyw. Diolch yn fawr iddynt am ymweld â ni.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant fu'n cystadlu mewn sioeau amaethyddol dros yr haf, ac i'r rhai a ddaeth i'r brig yn sioe Llanbed a'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.

Llongyfarchiadau i Mr Roger y gofalwr ar ddathlu ei ben-blwydd yn 60 ddiwedd Awst. A llongyfarchiadau mawr i Miss Bethan a Sam ar eu dyweddïad.

Fel rhan o waith thema blwyddyn 5 a 6, daeth Mrs Meinir Evans i'r ysgol i sôn am ei phrofiadau hi wrth deithio'r byd yn ymweld â'r 7 rhyfeddod cyfoes. Roedd y plant wedi gwrando'n astud ar hanesion Machu Pichu, Chichen Itza, Colosseum, Taj Mahal, Crist yn Rio de Janeiro a Wal Tseina. Diolch yn fawr iawn iddi am y cyflwyniad diddorol. Bydd y plant yn mynd ati i greu 7 rhyfeddod Cymru nesaf!

Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yng nghwmni Mrs Ann, i fyny i fferm Penparc, i ymweld â Thŵr Y Dderi. Thema'r hanner tymor yma yw Gweledigaethau Newydd sy'n cyfuno hanes lleol a ffotograffiaeth digidol. Cafwyd hanesion difyr gyda Mrs Ann a bu'r plant yn brysur yn tynnu lluniau digidol ar eu 'Acers'. Diolch o waelod calon i deulu Penparc am y croeso cynnes.

Cofiwch fod cyfle i chi brynu Eli Melyn Mair o siop yr Ysgol, siop ymwelwyr Myddfai neu'r Mulberry Bush. Cynhyrwyd yr eli gan

ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ystod tymor yr haf, ar ôl astudio hanes morwyn Llyn y Fan, a ryseitiau Meddygon Myddfai o Lyfr Coch Hergest.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Allan Jones, Hengoed sydd wedi treulio rhai diwrnodau yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Dymuniadau gorau am adferiad buan i bawb sydd wedi bod mewn ysbyty yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Maesffynnon

Ar nos Sul, Medi 1af cynhaliwyd Cyngerdd Blynnyddol Maesffynnon. Y côr gwadd oedd Meibion y Mynydd o ardal Ponterwyd. Cafwyd noson o ganu godidog gyda rhaglen ddiddorol ac amrywiol dan law fedrus ei harweinydd dawnus. Cadeirydd y noson oedd y Cyng. Odwyn Davies a chafwyd rhodd haelionus iawn ganddo tuag at gyllid y Capel. Llywyddwyd y cyfarfod gan Sally Davies a threfnwyd y noson gan Mair Morgan.

Merched y Wawr Y Dderi

Cafwyd noson bleserus a lliwgar iawn yng nghwmni Aerwen Griffiths o Lanfair yn ein cyfarfod agored cyntaf o'n tymor newydd. Arddangosfa o'i gwaith fel arlunydd wnaeth y wraig wadd dalentog ei dangos gan esbonio bod nifer o wahanol dechnegau mewn gwaith arlunio. Roedd ganddi nifer o ddarluniau i'w dangos a stori tu ôl i bob eitem. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch wresog i'r wraig wadd am roi o'i hamser prin er mwyn dangos ei hamryw luniau a'r dechneg sydd yn bodoli yn y byd celf. Rydym yn ffodus fod rhywun â sut dalent yn byw yn ein plith, a phawb wedi mwynhau y noson gan Deborah Jones.

Presennol yn y cyfarfod oedd Elizabeth Evans, swyddog datblygu y mudiad a chafwyd ganddi air o galondid ac anogaeth i gario ymlaen. Derbyniwyd dau wahoddiad – un

i Llanbed a'r llall i Dregaron ac fe dderbyniwyd y ddau. Bu trin a thrafod ar y cwrs Hwyl ac fe benderfynwyd i gymryd rhan. Penderfynwyd hefyd i gael cinio Nadolig. Rhoddwyd y raffl gan Eleanor Evans a Mair Spate ac fe'u henillwyd gan Aerwen Griffiths a Roger Hartwell. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd paned o de wedi ei baratoi gan Mary Jones a Mair Spate. I'r cyfarfod nesaf disgwylir Eleanor Morgan i sôn am eu gwyliau yn Nepal.

Eglwys Sant Cybi

Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Eglwys Sant Cybi ar ddydd Sul, Hydref 6ed am 6.00y.h. Croeso i bawb.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â theulu Mrs Glenys Davies, Olmarch Villa yn eu profedigaeth o golli perthynas iddynt yn ddiweddar.

Hamdden

Fe fydd Hamdden yn ail gychwyn ar ddydd Gwener cyntaf mis Hydref am 2.00y.p. yn Ysgol Y Dderi. Y wraig wadd fydd Amy Waller o Landdewi ac fe fydd yn coginio. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Betws ar fore Sul, Hydref 6ed am 10.45y.b. Croeso i bawb.

Hen Ffrind

Mae Papur Bro Clonc wedi cael cais gan Roger Davis i chwilio hen ffrind o ardal Llangybi - Thomas Ogwin Evans. Roedd Roger yn was priodas iddo yn 1964 mewn gwesty ar y Stryd Fawr yn Llanbed. Fe briododd Thomas Ogwin â merch o Awstralia a symudodd y ddau yno wedyn. Y tro diwethaf i'r ddau fod mewn cysylltiad oedd galwad ffôn gan Thomas Ogwin o Sydney yn 1965. Dymuna Roger y gallech gysylltu ag e drwy ebost rdavis@axxess.co.za petaech yn gallu ei helpu os gwelwch yn dda.

Cefn Hafo
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen
Cwis - nos Iau cyntaf bob mis
[bwyd yn rhan o'r noson]
Croeso cynnes i bawb!

W.D.
Lewis

Maesachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llanbed.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS
& BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llanbed

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanbydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, shw mae? Wel mae Hydref wedi cyrraedd ac mae'r dail yn dechrau newid eu lliwiau. Dw i ddim yn hoff iawn o'r tywydd oer yma felly dw i wedi bod yn cadw'n brysur yn ceisio rhoi trefn ar fy nghartref. Dw i hefyd wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod leol sef Eisteddfod Aberoncyn y penwythnos diwethaf. Mi fues yn llwyddiannus iawn ac enillais gwpan mawr yn y gystadleuaeth llefaru i grwbannod. Roeddwn wrth fy modd! Ydych chi erioed wedi ennill cwpan am gystadlu?


Wel, bu nifer fawr ohonoch yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yn lliwio llun o'r ysgol ac mae'n rhaid dweud, roedd pawb wedi gwneud ymdrech fawr. Da iawn chi gyd! Diolch i Alwena Mair Owen o Lanllwni, Holly Davies o Abertawe, Mari Rees o Gwmsychpant, Dion Morris-Dyer o Llanybydder a Steffan Hedd Howells o Lanwenog am luniau arbennig. Ond yr enillydd y mis hwn yw Jac Rees, Maesllwyd, Cwmsychpant. Llongyfarchiadau mawr i ti Jac a phawb arall wnaeth gystadlu. Ewch ati nawr i liwio llun ohonof i yn derbyn cwpan yn Eisteddfod Aberoncyn. Danfonwch nhw ataf i cyn 28 Hydref.

Hwyl am y tro



Enillydd
y mis!

Jac
Rees



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



Rhan o'n Treftadaeth Hanesyddol

Ganol Gorffennaf eleni ymddangosodd Dyfodol ein gorffennol, sef dogfen ymgynghori ar deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru. Yr amgylchedd hanesyddol yw'r pwnc dan sylw. Y bwriad yw cyflwyno'r Bil Treftadaeth i Gynulliad Cymru yn 2015.

Mae sylwadau'r gweinidog Diwylliant a Chwaraeon John Griffiths AC yn y rhagair i'w canmol:

"Mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn adnodd gwerthfawr ... Serch hynny, mae'n adnodd sydd o dan fygythiad ac mae angen ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil yr amodau economaidd digynsail, y newidiadau yn yr hinsawdd, a hefyd y newidiadau ym mhatrymau ymddygiad defnyddwyr a phatrymau addoli. Er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn parhau i ddod â manteision gwerthfawr i bobl Cymru, rhaid inni nodi yr hyn sy'n arwyddocaol ac mae angen inni reoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy. Gyda gofal o'r fath, ac wedi sefydlu'r fframwaith trefnu cywir, bydd yr hyn sy'n arwyddocaol yn cael ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau a thynnu ysbrydoliaeth ohonynt."

Wrth sôn am elfennau o'r dreftadaeth hanesyddol sydd dan fygythiad mae'n siom na chrybwyllwyd bod enwau lleoedd yn haeddu eu gwarchod yn union fel y mae deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio ar gyfer gwarchod henebion, yr amgylchedd ac adeiladau hynafol ac elfennau eraill sy'n rhan o'r treftadaeth hanesyddol.

Mae Pwyllgor Llywio Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r ddogfen ymgynghori a barn y gymdeithas yw y dylid cynnwys ENWAU LLEOEDD ymysg yr asedau hanesyddol bregus hynny yn yr amgylchedd hanesyddol a'u cynrychioli, yn ogystal, yn fframwaith trefnu gwasanaethau'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Gwelsom eisoes fod enwau gwamal wedi dod i gynrychioli ein cefn gwlad ar lwyfan y byd - a hynny efallai yn ddjarwybod i lawer ohonom.

Yn Hen Dŷ Ffarm cawn D J Williams yn datgan am ei gynefin yng ngogledd Sir Gaerfyrddin:

"I mi, dyma fro y broydd, y godidocaf ohonynt oll. Dysgais ei charu, mi gredaf, cyn dysgu cerdded. Ni theithiais y darn yma o wlad erioed - o Fwlch Cae Melwas i Fwlch Cefn Sarth ac o Graig Dwrch i'r Darren Fowr - heb deimlo rhyw gynnwrf rhyfedd yn cerdded fy natur ... Dyma wlad fy nhadau mewn gwirionedd."

'Bwlch Cefn Sarth' yw'r enw sy'n tynnu sylw. Erys Cae Melwas, Darren Fawr a Chraig Dwrch; ofer chwilio am arwydd yn dynodi Bwlch Cefn Sarth yng nghyfeirnod DJ, nawr. Enw'r daliad hwnnw bellach yw Emerald Valley.

A'r ymgynghoriad ffurfiol wedi'i lansio, bydd y deddfwriaeth a fydd yn dilyn yn llywio arfer y sector hwn yng Nghymru tua'r dyfodol.

Daeth cyfle i ni ddylanwadu ar ddyfodol yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru trwy bwysleisio o'r newydd bwysigrwydd enwau lleoedd. Mae rhai wedi disgrifio newid enw yn y dull a ddisgrifiwyd uchod yn gymaint trosedd yn erbyn ein treftadaeth hanesyddol â llygru nant neu afon yn fwriadol.

Oni fyddai'n dda o beth petai cynifer ohonom â phosibl yn penderfynu datgan ein pryder i'r gweinidog ac i'r aelodau sy'n ein cynrychioli yn y Cynulliad, na chrybwyllwyd enwau lleoedd Cymru o gwbl yn y ddogfen ymgynghori ar y treftadaeth hanesyddol.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org
enwaulleoedd@gmail.com

Dathliadau



Ffair Ram

Cynhaliwyd y Ffair ar yr 14eg Medi. Cafwyd diwrnod teg o ran tywydd a chefnogaeth dda yn ystod y dydd. Cafwyd gweithgareddau llwyddiannus o dan lywyddiaeth Mr a Mrs Arthur Roderick, Awelon. Cafwyd cystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth ac arddangosfa arbennig o dda o hen beiriannau. Codwyd swm sylweddol tuag at Apêl Nancy Ffibrosis Systic.

Dyma enillwyr y Gwobrau: Adran Fferm – Gareth Russell, Llysiau a Ffrwythau – Jenkin Mason, Blodau – Gwyn Williams, Coginio – Gwen Jones, Cyffeithiau / Gwinoedd – Helen Roberts, Ysgol Feithrin – Deina Evans, Dosbarth Derbyn – Sienna Hughes, Blwyddyn 1 a 2 – Marged Jones, Blwyddyn 3 a 4 – Sion Harry, Blwyddyn 5 a 6 – Gwennan Rowcliffe, Ysgol Uwchradd – Mari Lewis, Arlunwaith – Rhiannon Lewis, Ffotos – Terry Davies, Crefftiau Cefn Gwlad – Alun Jones, Gwaith Llaw – Ann Ewart, Adran y Defaid – Eiddig Jones, Cwpan Sialens Felindre Uchaf – Jenkin Mason, Cwpan Sialens Felindre Isaf – Elen, Marged ac Ifan Ffosyffin, Cwpan Sialens Wyn a Mary – Carwyn Lewis, Cwpan Sialens Eric Harries – Teulu Ffosyffin, Cwpan Sialens Teulu Hendai – Carwyn Lewis, Cwpan Sialens Dalgety – Carwyn Lewis.

Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb a fu'n helpu ac am bob cefnogaeth.



Llongyfarchiadau i Jonathon Evans, Fferm Llanfair Fawr a Penny Smith, Fferm Esgair Dawe a briododd yn ddiweddar yn Eglwys Santes Fair, Llanfair Clydogau. Cafwyd diwrnod o ddathliadau mawr yn y pentref. Adroddiad llawn ar dudalen 10.



Llongyfarchiadau i Rhydian Jones, Meysydd, Drefach a Hayley Parker o Fethesda, Gwynedd a briododd yn ddiweddar ym Mhrifysgol Bangor. Mae Hayley yn athrawes fathemateg yn ysgol Brynrefail a Rhydian yn athro ymarfer corff yn Ysgol Uwchradd Aberconwy. Maent bellach wedi ymgartrefu ym Methesda a dymunir yn dda i'r ddau ohonynt.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.



Hari Butten (13 blwydd oed) o Glwb Bowlio Llanbed a ennillodd cystadleuaeth unigol Sir Ceredigion i fechgyn o dan 18 oed.



Tîm 5 bob ochr Ysgol Llanwnnen Carwyn Rosser, Dylan Thomas, Guto Ebbsworth, Meirion Lloyd, Steffan Griffiths, Catrin Jones a Lucy Cooper yn ennill cystadleuaeth cylch yr Urdd. Fe ânt ymlaen yn awr i gynrychioli'r cylch yn y rownd nesaf.



Caitlin Page, Llanbed a fu'n rhedeg mewn ras fynydd yn yr Alban. Adroddiad Sarn Helen ar dudlaen 6.



Tra'n cynrychioli Cymru yng 'Ngŵyl Criced Cymdeithas Ysgolion Lloegr' i fechgyn dan 12 oed, a gynhaliwyd ar gaeau Coleg y Brenin, Taunton yn ddiweddar, dewiswyd Tomos Jones, Glennydd, Stryd Newydd, Llanbed, yn un o ddeuddeg o chwaraewyr a fowliodd at seren tîm criced Gwlad yr Haf a thîm criced undydd Lloegr, Joss Buttler, mewn sesiwn ymarfer agored 45 munud.

Dewiswyd un bowliwr yn unig i gynrychioli bob tîm a gymerodd ran yn yr ŵyl i fowlio at y chwaraewr rhyngwladol, sy'n gyn ddisgybl o Goleg y Brenin, ac ar ôl perfformiadau arbennig yn ystod yr wythnos, Tomos a ddewiswyd i gynrychioli Cymru.

y gwyll.

hinterland

9.30
Yn dechrau 29 Hydref
Bob nos Fawrth a nos Iau
Pennod ddwbl bob
nos Sul

Cyfres dditectif newydd

s4c.co.uk

S4/C

Calon Cenedl

Heart of the Nation